Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Gweithredu diwygiadau addysg: Adroddiad interim

Gorffennaf 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddPlant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPlant@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddPlant**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Gweithredu diwygiadau addysg:
## Adroddiad interim

Gorffennaf 2024

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddPlant**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Buffy Williams AS**
Llafur Cymru



**Cefin Campbell AS**
Plaid Cymru



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Gareth Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Jack Sargeant AS**
Llafur Cymru

## Roedd yr Aelodau a ganlyn hefyd yn aelodau o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Jayne Bryant AS**
Llafur Cymru



**Laura Anne Jones AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**James Evans AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Heledd Fychan AS**
Plaid Cymru



**Ken Skates AS**
Llafur Cymru



**Sioned Williams AS**
Plaid Cymru

## Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Vikki Howells AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... **5**

**Argymhellion** ..... **7**

**1. Cyflwyniad** ..... **10**

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf ADY") ..... 10

Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf y Cwricwlwm") ..... 11

Ein hymchwiliad ..... 12

Yr adroddiad hwn ..... 13

**2. Y diwygiadau ADY** ..... **15**

Cymhwyso'r diffiniad o ADY ..... 15

Cymorth gan gyrff iechyd ..... 35

Cyflogau a thelerau ac amodau staff ADY ..... 41

**3. Y Cwricwlwm i Gymru** ..... **45**

Sgiliau neu wybodaeth, rhagnodi neu hyblygrwydd ..... 45

Asesiad ffurfiannol (parhaus) ..... 50

**Atodiad 1: Rhestr o ymweliadau ysgol** ..... **55**

Cynhaliodd y Pwyllgor ymweliadau ar y dyddiad a nodir isod. Gellir gweld crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliadau ymgysylltu ar wefan y Pwyllgor. ..... 55

**Atodiad 2: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar** ..... **56**

**Atodiad 3: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig** ..... **58**

Gwybodaeth ychwanegol ..... 60

Gweithgareddau ymgysylltu eraill ..... 60

# Rhagair y Cadeirydd

Mae'r adroddiad interim hwn yn nodi canfyddiadau allweddol ein gwaith craffu hyd yma ar weithrediad Llywodraeth Cymru o ddau ddiwygiad addysg mawr a basiwyd yn y Senedd flaenorol: y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r Cwricwlwm i Gymru – diwygiadau mawr a thrawsnewidiol ynddynt eu hunain.

Mae ymchwiliadau pwyllgorau'r Senedd, hyd yn oed ymchwiliadau eang fel yr un hwn, yn tueddu i ganolbwyntio ar bynciau penodol, neu feysydd polisi penodol. Ond wrth gwrs, rydym yn gwybod nad yw pobl yn profi gwasanaethau cyhoeddus o fewn ffiniau mor daclus. Bydd eu profiadau o wasanaethau cyhoeddus yn dibynnu ar bwy ydynt a'u hanghenion penodol.

Mae'r diwygiadau ADY rydym yn eu hystyried yn yr adroddiad hwn yn gydgysylltiedig â materion ehangach ynghylch yr addysg a'r gofal plant y mae plant anabl yn eu derbyn. Rydym wedi penderfynu cyhoeddi'r adroddiad hwn ochr yn ochr â'n hadroddiad ar fynediad plant a phobl ifanc anabl at ofal plant ac addysg i gydnabod y rhyng-gysylltedd hwnnw, ac i osod y ddadl ynghylch y diwygiadau ADY yng nghyd-destun dadleuon ehangach ynghylch cynwysoldeb.

Ac wrth gwrs, mae profiadau pobl o wasanaethau cyhoeddus hefyd yn cael eu heffeithio gan y cyd-destun ehangach sy'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus eu hunain.

Mae cyfanswm nifer y plant y nodwyd bod ganddynt Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu ADY wedi gostwng 32 y cant ers dechrau cyflwyno'r diwygiadau ADY, a 40 y cant ers 2016-17. Rydym yn dod i'r casgliad yn yr adroddiad hwn mai'r prif reswm am y gostyngiad hwn yw nad oes gan ysgolion yr adnoddau i gynnig darpariaeth wedi'i thargedu ar gyfer pob plentyn sydd ag ADY. Mewn geiriau eraill, mae'r pwysau ariannol y mae ysgolion yn eu hwynebu yn cael effaith sylweddol ar brofiadau plant a'u teuluoedd o'r diwygiadau ADY.

Mae hefyd yn amlwg bod y broses o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru a'r diwygiadau ADY sy'n gorgyffwrdd yn cael effaith ar y ffordd y cânt eu rhoi ar waith.

Mae gweithredu'r ddau, ochr yn ochr, yn amlwg wedi bod yn hynod heriol i ysgolion. Ond efallai ei fod hefyd wedi datgloi rhai manteision posibl nas rhagwelwyd: y posibilrwydd i'r Cwricwlwm i Gymru sbarduno symudiad tuag at addysgu mwy cynhwysol, er enghraifft. Er ein bod yn amheus i ba raddau y gall hyn egluro'r gostyngiad sylweddol yn niferoedd AAA/ADY hyd yma, rydym yn gweld rhai arwyddion calonogol ynghylch potensial y Cwricwlwm i Gymru i roi'r

hyblygrwydd sydd ei angen ar ysgolion i ddiwallu anghenion eu disgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag ADY.

Gwnaethom benderfynu cyhoeddi'r adroddiad interim hwn i lywio camau nesaf Llywodraeth Cymru wrth inni nesáu at ddiwedd y Chweched Senedd. Rydym yn ddiolchgar i Ysgrifennydd presennol y Cabinet dros Addysg, cyn-Weinidog y Gymraeg ac Addysg, a'u swyddogion am eu deialog adeiladol barhaus gyda ni.

Rydym yn rhannu eu huchelgais ar gyfer y diwygiadau hyn, ac yn annog Llywodraeth Cymru i gymryd y pryderon a nodwyd gennym yn yr adroddiad hwn o ddifrif, ynghyd â'n cynigion i adlinio gweithrediad y ddau ddiwygiad er budd dysgwyr ledled Cymru.

**Buffy Williams AS**
Cadeirydd

# Argymhellion

**Recommendation 1.** Fel rhan o'i hadolygiad o'r Cod a'r Ddeddf ADY, dylai Llywodraeth Cymru adolygu eglurder a hygyrchedd y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol. Dylai ffocws y gwaith hwnnw fod ar yr hyn a olygir, neu o leiaf a ddëellir yn gyffredin, fel 'darpariaeth gyffredinol' drwy archwilio i ba raddau y dylai addysgu arferol ar draws ysgolion prif ffrwd ddiwallu anghenion dysgu plant sydd ag anghenion ychwanegol isel i gymedrol, ac ar ba bwynt y dylai gwahaniaethu arferol fod yn rhan o'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol. ........ Tudalen 34

**Recommendation 2.** Fel rhan o'i hadolygiad o'r Cod a'r Ddeddf ADY, dylai Llywodraeth Cymru adolygu sut y caiff darpariaeth ADY ei hariannu mewn ysgolion prif ffrwd. Dylai'r gwaith hwn gynnwys ystyried fformiwlâu ariannu awdurdodau lleol, cyfresi o egwyddorion, a threfniadau ariannu eraill i:

- sicrhau bod awdurdodau lleol yn trosglwyddo lefelau priodol o gyllid i ysgolion i gefnogi disgyblion sydd ag ADY;
- sicrhau bod y cydbwysedd rhwng darpariaeth a ariennir gan ysgolion a chan awdurdodau lleol fel y'i bwriadwyd yn y Cod a'r Ddeddf ADY;
- ymchwilio i weld a yw awdurdodau lleol wedi newid y ffordd y maent yn ariannu ADY o gymharu â sut y maent yn ariannu AAA o dan yr hen system, ac a yw hyn yn briodol;
- hyrwyddo tryloywder ynghylch sut y caiff ADY eu hariannu er budd ysgolion a theuluoedd; ac, yn bwysicaf oll
- sicrhau nad yw diffyg cyllid neu adnoddau yn rheswm dros wrthod CDU i blant. ........ Tudalen 35

**Recommendation 3.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn penodi ei Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg pwrpasol ei hun cyn gynted ag y bo'n ymarferol gwneud hynny. ........ Tudalen 39

**Recommendation 4.** Fel rhan o'i hadolygiad o'r Cod a'r Ddeddf ADY, dylai Llywodraeth Cymru archwilio effaith y Cod a'r Ddeddf yn benodol ar gydweithredu rhwng y sectorau iechyd ac addysg. Dylai'r adolygiad hwnnw gynnwys ystyriaeth o'r canlynol:

- a yw cyrff iechyd yn ymateb yn gyson i atgyfeiriadau a cheisiadau am wybodaeth gan awdurdodau lleol mewn modd amserol (ac os nad ydynt, pam);
- a yw'r amserlenni ar gyfer ymatebion byrddau iechyd i awdurdodau lleol y darperir ar eu cyfer yn y Ddeddf yn briodol;
- a yw'r gofyniad am atgyfeiriadau/ceisiadau am wybodaeth gan awdurdodau lleol – yn hytrach nag ysgolion – yn briodol, ac a ellid gwneud unrhyw newidiadau i wneud y cydweithredu hwnnw'n fwy effeithlon; ac
- a oes unrhyw dagfeydd eraill yn y Cod a'r Ddeddf ADY sy'n rhwystro cydweithredu rhwng iechyd ac addysg. ........Tudalen41

**Recommendation 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r grŵp gorchwyl a gorffen Cydlynwyr ADY wneud gwaith pellach i archwilio cyflog a thelerau ac amodau staff addysgu sy'n gweithio'n gyfan gwbl neu'n rhannol fel dirprwy gydlynwyr ADY/cydlynwyr ADY cynorthwyol. Dylai'r grŵp gorchwyl a gorffen ystyried yr hyfforddiant y dylai unigolion sydd mewn swyddi o'r fath ei gael, y tasgau a'r cyfrifoldebau allweddol y gallent ddisgwyl eu cael, ac ystyriaethau y dylai cyrff llywodraethu eu hystyried wrth bennu eu cyflog. ........Tudalen 43

**Recommendation 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau ac argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen cynorthwywyr addysgu a sefydlwyd gyntaf ym mis Chwefror 2022. ........Tudalen 44

**Recommendation 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r grŵp gorchwyl a gorffen cynorthwywyr addysgu wneud gwaith pellach i archwilio cyflog a thelerau ac amodau cynorthwywyr addysgu sy'n gweithio'n gyfan gwbl neu'n rhannol gyda'r Cydlynydd ADY fel rhan o dîm ADY canolog. Dylai'r grŵp gorchwyl a gorffen ystyried yr hyfforddiant y dylai unigolion sydd mewn swyddi o'r fath ei gael, y tasgau a'r cyfrifoldebau allweddol y gallent ddisgwyl eu cael, ac ystyriaethau y dylai cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol eu hystyried o ran eu cyflog. ........Tudalen 44

**Recommendation 8.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei barn ar y canlynol mewn perthynas â'r cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru:

- O edrych yn ôl, ai'r penderfyniad cywir oedd cyhoeddi TGAU newydd flwyddyn yn unig cyn y mae'n ofynnol i ysgolion uwchradd eu haddysgu?
- A yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd cyfres sefydlog o gymwysterau yn annog ysgolion uwchradd yn benodol i 'addysgu i'r prawf', a thrwy hynny yn tanseilio'r hyblygrwydd a'r annibyniaeth hon a roddir iddynt o dan y Cwricwlwm i Gymru?
- I ba raddau, os o gwbl, y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod cael un darparwr cymwysterau unigol yn rhwystr i hyblygrwydd ysgolion o dan y Cwricwlwm i Gymru? ........ Tudalen 50

# 1. Cyflwyniad

## Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf ADY")

**1.** Mae Llywodraeth Cymru a'r system addysg wrthi'n gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd, sy'n disodli'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), yn cael ei chyflwyno dros bedair blynedd: Medi 2021 i Awst 2025.

**2.** Mae'r holl ddysgwyr sydd newydd gael eu nodi ag ADY yn dod o dan y system newydd, gyda'r rhai sydd eisoes yn cael eu cefnogi ag AAA yn symud i'r system newydd mewn gwahanol flynyddoedd, yn dibynnu ar eu grŵp blwyddyn a lefel yr ymyriadau (a oes ganddynt ddatganiad AAA ai peidio). O'r herwydd, mae'r system AAA bresennol/flaenorol a'r system ADY newydd yn gweithredu ochr yn ochr, tan fis Awst 2025.

**3.** Pan roddwyd y ddeddfwriaeth ddrafft gerbron y Senedd ddiwedd 2016, disgrifiodd Llywodraeth Cymru y ddeddfwriaeth fel rhywbeth a fydd yn ailwampio'n llwyr y system "nad yw bellach yn addas at ei ddiben".[1] Mae gwendidau'r system AAA, a nodwyd mewn adolygiadau blaenorol sy'n dyddio'n ôl sawl blwyddyn, yn cynnwys teuluoedd yn aml yn gorfod brwydro er mwyn sicrhau darpariaeth ar gyfer eu plentyn, diffyg cydweithio rhwng llywodraeth leol a'r gwasanaethau iechyd, ac anghysondebau yn y modd y caiff anghenion gwahanol ddysgwyr eu diwallu.[2]

**4.** Mae gan y diwygiadau ADY dri phrif nod:

- Darparu un system i blant o'u genedigaeth, gan gynnwys disgyblion mewn ysgolion a myfyrwyr mewn colegau, ni waeth beth yw lefel yr angen. Mae gan bob dysgwr ag ADY hawl i Gynllun Datblygu Unigol (CDU) statudol.

- Sicrhau cydweithredu agosach rhwng y GIG a llywodraeth leol, a hynny drwy swyddogion cyswllt dynodedig ym mhob bwrdd iechyd (y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg).

[1] Y Cyfarfod Llawn, 13 Mehefin 2016: Cofnod y Trafodion, paragraff 120
[2] Senedd Cymru, 'Diwygio'r system anghenion addysgol arbennig', 27 Mai 2021

- Darparu system fwy tryloyw er mwyn osgoi achosion o anghytuno a datrys anghydfodau. (Elfen allweddol o'r diwygiadau pan oedd y ddeddfwriaeth yn mynd drwy'r Senedd oedd y byddent yn niwtral o ran cost oherwydd arbedion disgwyliedig o lai o anghytuno a llai o apeliadau.)[3]

**5.** Mae Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 ("y Cod ADY") yn rhoi arweiniad i'r rhai sy'n ymwneud â darparu'r system ADY ar sut y dylent fodloni eu cyfrifoldebau.[4]

## Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf y Cwricwlwm")

**6.** Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn disodli'r cwricwlwm cenedlaethol, sydd wedi bod ar waith ers 1988. Cyflwynwyd y Cwricwlwm mewn ysgolion cynradd ym mis Medi 2022 a daeth yn statudol ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8 mewn ysgolion uwchradd ym mis Medi 2023. Caiff ei gyflwyno i grwpiau blwyddyn ychwanegol, flwyddyn ar ôl blwyddyn, hyd nes iddo gyrraedd Blwyddyn 11 ym mis Medi 2026. Cyflwynodd rhai ysgolion uwchradd y Cwricwlwm i Gymru ym Mlwyddyn 7 o fis Medi 2022, flwyddyn cyn y daeth yn statudol.

**7.** Mae'r cwricwlwm newydd ar gyfer dysgwyr 3 i 16 oed yn symud i ffwrdd o ddull traddodiadol y cwricwlwm cenedlaethol, lle caiff yr hyn a addysgir ei amlinellu'n fanwl, i un lle mae gan ysgolion hyblygrwydd i gynllunio eu cwricwla eu hunain, o fewn fframwaith cenedlaethol eang. Felly, bwriedir i'r Cwricwlwm i Gymru fod yn seiliedig ar ddibenion yn hytrach nag ar gynnwys, gyda mwy o bwyslais ar sgiliau ac addysgu'r hyn sy'n bwysig.[5] Mae'n dilyn adolygiad Dyfodol Llwyddiannus yr Athro Graham Donaldson yn 2015, a fabwysiadodd fel ei fan cychwyn weledigaeth o'r "dysgwr sydd wedi'i addysgu'n dda wrth gwblhau ei addysg statudol yng Nghymru", er mwyn penderfynu beth y dylai'r cwricwlwm ei gynnig i gyflawni hyn.[6]

**8.** Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i anelu at y pedwar diben ac wedi'i strwythuro o amgylch chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Mae tri sgìl trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd, a chymhwysedd digidol) ac mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n briodol yn ddatblygiadol, a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg, yn orfodol o 3 oed.

[3] Llywodraeth Cymru, 'Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru): Memorandwm Esboniadol', Ionawr 2018, tudalen 6
[4] Llywodraeth Cymru, 'Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021', 26 Mawrth 2021
[5] Llywodraeth Cymru, 'Hwb: Cwricwlwm i Gymru'
[6] Donaldson, Graham, 'Dyfodol llwyddiannus', Chwefror 2015, tudalen 106

**9.** Mae'r Gymraeg yn orfodol o 3 oed, ac mae Saesneg yn orfodol o 7 oed (Blwyddyn 3). Mae hyn er mwyn galluogi lleoliadau cyfrwng Cymraeg i ddefnyddio'r model trochi a gydnabyddir yn eang hyd at yr oedran hwn. Er nad yw'n dechnegol orfodol yn gyfreithiol cyn Blwyddyn 3, mae lleoliadau cyfrwng Saesneg yn dysgu Saesneg o 3 oed.

## Ein hymchwiliad

**10.** Wrth inni ddechrau cynllunio ein gwaith ar ddechrau'r Chweched Senedd, gwnaethom gytuno i ganolbwyntio ar sut mae newidiadau ym mholisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc o ddydd i ddydd. Gwnaethom ymrwymo i fonitro gweithrediad polisi yn benodol, ac i flaenoriaethu clywed gan blant a phobl ifanc ac ymarferwyr y rheng flaen i ddeall beth oedd yn digwydd ar lawr gwlad.[7]

**11.** Roeddem yn deall pwysigrwydd ac arwyddocâd y diwygiadau ADY a'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer addysg yng Nghymru. Cawsom ein hannog hefyd i graffu ar waith Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno'r ddwy gyfres o ddiwygiadau gan amrywiaeth o randdeiliaid.[8] Roeddem yn awyddus i wneud hynny, ond nodwyd y byddai'r cyflwyno'n digwydd dros nifer o flynyddoedd. Ni fyddai hyd ymchwiliad traddodiadol (a fesurir mewn misoedd, nid blynyddoedd fel arfer) yn briodol ar gyfer y darn hwn o waith.

**12.** Felly, gwnaethom benderfynu cynnal ymchwiliad dros dymor cyfan y Senedd i weithrediad y ddau ddiwygiad. Gwnaethom lansio ymgynghoriad agored ym mis Mehefin 2022, gan dderbyn cyflwyniadau gan unigolion a sefydliadau ar unrhyw adeg, am unrhyw agwedd ar weithredu'r diwygiadau ADY neu'r Cwricwlwm i Gymru.[9] Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad estynedig hwn, gwnaethom ymrwymo i gynnal cyfres o wiriadau thematig byr â ffocws ar draws y Chweched Senedd. Gwnaethom gytuno y byddai pob gwiriad yn cynnwys o leiaf rhai gweithgareddau ymgysylltu (e.e. ymweliadau ag ysgolion i siarad â staff, disgyblion a rhieni) a chraffu ar waith un o Weinidogion Llywodraeth Cymru.

**13.** Hyd yma, rydym wedi cynnal tri gwiriad o'r fath. Mae ffocws pob gwiriad wedi'i bennu fesul achos, ac wedi'i lywio gan y canlynol:

[7] Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Strategaeth y Chweched Senedd (fersiwn fanwl)', Rhagfyr 2021
[8] Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg'. Ymgynghoriad ar flaenoriaethau'r Chweched Senedd
[9] Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg'. Gweithredu diwygiadau addysg – Ymgynghoriad'

- cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y broses weithredu ac unrhyw wybodaeth gyd-destunol arall a amlygwyd gan staff ymchwil a rhanddeiliaid;
- unrhyw beth a ddysgwyd o wiriadau blaenorol;
- unrhyw faterion sy'n deillio o'r ymgynghoriad agored; ac
- unrhyw bryderon neu feysydd eraill sydd o ddiddordeb inni ar y pryd.

**14.** Yn ystod y tri gwiriad:

- daeth 57 o ymatebion i law yn sgil yr ymgynghoriad;
- gwnaethom ymweld â 9 ysgol ledled Cymru;
- gwnaethom siarad ag aelodau teulu plant ag ADY a oedd yn aelodau o'r 'Grŵp Cynghori Ar-lein', a sefydlwyd i gefnogi ein gwaith yn edrych ar fynediad plant a phobl ifanc anabl at ofal plant ac addysg;
- gwnaethom gymryd tystiolaeth lafar gan Estyn a Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru;
- gwnaethom gynnal tair sesiwn i graffu ar waith gweinidogion; a
- gwnaethom ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, Conffederasiwn y GIG, CLlLC a rhanddeiliaid allweddol eraill i rannu ein pryderon a cheisio eglurhad ynghylch materion penodol.

Mae rhagor o wybodaeth am bob gwiriad ar gael ar ein tudalen gwe ymchwiliadau.[10]

## Yr adroddiad hwn

**15.** Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a benodwyd yn ddiweddar ar 8 Mai 2024 fel rhan o'n trydydd gwiriad, gwnaethom gytuno ei bod yn amser da i gyhoeddi adroddiad ar ein canfyddiadau hyd yma. Mae'n amlwg inni fod manylder ac ansawdd y dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu hyd yma yn ein galluogi i ddod i rai casgliadau cadarn ynghylch cyflwyno'r diwygiadau hyd yma.

[10] Senedd Cymru, 'Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Gweithredu diwygiadau addysg'

**16.** Nid ydym yn bwriadu i'r adroddiad hwn fod yn gyflawn. Yn hytrach, rydym yn canolbwyntio yma ar feysydd yr ymchwiliad hwn y gallwn wneud argymhellion sylweddol ac adeiladol yn eu cylch ar hyn o bryd. Rydym yng nghanol y broses o gyflwyno'r diwygiadau hyn o hyd, ac mae'n rhy gynnar o hyd i ddod i gasgliadau pendant am lawer o agweddau ar weithredu'r diwygiadau ADY a'r Cwricwlwm i Gymru. Ein bwriad yw llunio adroddiad mwy cynhwysfawr yn 2026, yn adrodd hanes cyflwyno'r diwygiadau yn y Chweched Senedd. Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwnnw o gymorth i Lywodraethau Cymru yn y dyfodol wrth iddynt barhau i ymgorffori'r diwygiadau uchelgeisiol hyn yn y Seithfed Senedd a thu hwnt.

**17.** Dylai darllenwyr ystyried yr adroddiad hwn fel un agwedd ar gorff ehangach o waith yr ydym wedi'i wneud yn edrych ar fynediad plant at addysg a gofal plant. Mae'r adroddiad ar ein hymchwiliad 'A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?' wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad interim byrrach, mwy penodol hwn. Rydym wedi dewis cyhoeddi'r adroddiadau gyda'i gilydd i gydnabod natur gynhenid a sylfaenol yr ymchwiliadau. Lle bo'n berthnasol, mae tystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r ymchwiliad hwnnw wedi llywio'r adroddiad hwn, ac i'r gwrthwyneb.


**18.** Hoffem nodi ein diolch i'r holl randdeiliaid sydd wedi cyfrannu at yr ymchwiliad hwn hyd yma. Yn benodol, hoffem ddiolch i'r ysgolion sydd wedi cynnal ymweliadau'r Pwyllgor: yr arweinwyr ysgol a'r llywodraethwyr am eu trefnu a'u hwyluso, y staff am gymryd yr amser i siarad â ni, a'r llu o ddisgyblion hyfryd yr ydym wedi cael y pleser o siarad â hwy.

# 2. Y diwygiadau ADY

## Cymhwyso'r diffiniad o ADY

### Gostyngiad yn nifer y plant y nodir bod ganddynt ADY neu AAA

***Ffigur 1: nifer y plant y nodir bod ganddynt AAA neu ADY. (Dechreuwyd cyflwyno'r system ADY ym mis Medi 2021.) Ffynhonnell: StatsCymru**, 'Disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ddarpariaeth'*[11]




**19.** Mae cyfanswm nifer y plant y nodir bod ganddynt naill ai ADY neu AAA wedi gostwng bron i draean o gymharu â chyn i'r Ddeddf ADY ddechrau (63,065 o ddysgwyr yn 2022/23 o gymharu â 92,700 yn 2020/21. Gweler ffigur 1). Ymddengys bod y gostyngiad hwn yn bennaf oherwydd bod llai o blant ag anawsterau neu anableddau dysgu isel i gymedrol yn cael eu dosbarthu fel rhai sydd ag AAA neu ADY, fel y dengys ffigur 2.

[11] Rydym wedi defnyddio StatsCymru fel ein ffynhonnell ddata oherwydd ei fod yn rhannu nifer y CDUau yn rai a gynhelir gan awdurdodau lleol a'r rhai a gynhelir gan ysgolion. Fodd bynnag, mae'r ffigurau ar StatsCymru wedi'u dadansoddi fesul awdurdod lleol, ac maent i gyd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Felly, nid yw'r ffigurau hyn yn cyfateb yn union i ganlyniadau'r cyfrifiad ysgolion. Am yr union niferoedd cyffredinol o blant sydd ag AAA/ADY, gweler Llywodraeth Cymru, 'Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Ionawr 2023', 19 Medi 2023

***Ffigur 2: cyfanswm nifer y plant y cydnabyddir bod ganddynt AAA/ADY ag anawsterau/anableddau dysgu isel i gymedrol (a ddiffinnir fel plant sy'n cael ymyriadau Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy o dan y system AAA, neu blant sydd â CDU a gynhelir gan yr ysgol o dan y system ADY). Ffynhonnell: StatsCymru**, 'Disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn ôl awdurdod lleol, rhanbarth a math o ddarpariaeth'*

| Blwyddyn academaidd | Plant y cydnabyddir bod ganddynt AAA/ADY gydag anableddau/anawsterau dysgu isel i gymedrol | Tuedd ers y flwyddyn flaenorol | Tuedd ers 2016/17 | Tuedd ers cyflwyno diwygiadau ADY |
|---|---|---|---|---|
| **2016/17** | 92,970 | - | - | - |
| **2017/18** | 92,735 | **-0.25%** | **-0.25%** | - |
| **2018/19** | 90,810 | **-2.08%** | **-2.32%** | - |
| **2019/20** | 84,050 | **-7.44%** | **-9.59%** | - |
| **2020/21** | 78,615 | **-6.47%** | **-15.44%** | - |
| **Dechreuwyd cyflwyno'r system ADY** | | | | |
| **2021/22** | 60,120 | **-23.53%** | **-35.33%** | **-23.53%** |
| **2022/23** | 48,730 | **-18.95%** | **-47.59%** | **-38.01%** |

**20.** Prif ffocws yr ymchwiliad hwn hyd yma fu deall y tueddiadau hyn ar i lawr, o ystyried:

- Mae'r dystiolaeth a gawsom – gan gynnwys gan Lywodraeth Cymru ar fwy nag un achlysur – yn dangos bod gan fwy o blant nag erioed o'r blaen anghenion ychwanegol o ryw fath, ac mae natur yr anghenion hynny yn fwy cymhleth nag erioed.[12]

[12] Gweler, er enghraifft: Llywodraeth Cymru, 'Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru – y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10 Mai 2023', 27 Ebrill 2023, tudalen 4; Llywodraeth Cymru, 'Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru: Ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i weithredu diwygiadau addysg', Ebrill 2024, tudalen 4. Dywedodd y Gweinidog Addysg ar y pryd wrthym yn 2023 fod ei farn yn gryf iawn nad yw lefel yr angen yn y system wedi lleihau – gweler Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10 Mai 2023: Cofnod y Trafodion, paragraff 86; Senedd Cymru, 'Gweithredu diwygiadau addysg: trydydd gwiriad: Crynodeb o ganfyddiadau ymweliadau ysgol', haf 2024, tudalen 13. Clywsom hefyd safbwyntiau tebyg yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion yn 2022; Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 43 Canolfan Blant Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 46 UNSAIN Cymru (Saesneg yn unig). Mae data ariannol yn atgyfnerthu'r tueddiadau hyn, gyda gwariant awdurdodau lleol ar AAA yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2015. Gweler: Estyn, 'Y system anghenion dysgu ychwanegol: Cynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol wrth gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol', Medi 2023, tudalen 42

- Nid yw erioed wedi bod yn fwriad polisi datganedig Llywodraeth Cymru i nifer y plant y nodir bod ganddynt ADY neu AAA ostwng:
  - Dywedodd y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil y "dylai nifer y dysgwyr a fyddai ag ADY, felly, fod yr un fath â'r rheini sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu ar hyn o bryd."[13]
  - Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth wneud rheoliadau yn 2021 ei bod yn disgwyl y byddai 110,000 o CDUau ledled Cymru, yn seiliedig yn bennaf ar ffigurau AAA rhwng 2011-12 a 2015-16.[14]
  - Mae'r canllaw ar-lein presennol i rieni yn nodi "Bydd rhai pethau yn aros yr un fath. Mae ystyr ADY yr un fath ag ystyr AAA. Felly, os oes gan y plentyn AAA, mae'n debygol y bydd ganddo ADY."[15]
  - Ac yn fwyaf diweddar, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wrthym fod bwriad y polisi yn parhau, a'i bod yn wirioneddol ymrwymedig i hyn, sef y dylai pob plentyn sydd ag ADY gael CDU.[16]
- Mae'r diffiniad o ADY yn y Ddeddf ADY yn fras yr un fath â'r diffiniad o AAA yng nghod ymarfer statudol yr hen system.[17] Ym mis Mawrth 2021, dywedodd y Gweinidog Addysg ar y pryd a oedd yn gyfrifol am gymeradwyo'r Cod ADY wrth y Senedd nad oedd yn credu y byddai'r diwygiadau yn codi'r bar ar gyfer darparu CDU oherwydd "nid yw'r prawf i benderfynu pwy sydd ag ADY wedi newid."[18]

---

[13] Llywodraeth Cymru, 'Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)', Rhagfyr 2016, tudalen 93
[14] Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021', 12 Mawrth 2021, tudalen 33
[15] Llywodraeth Cymru, 'Symud i'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY): canllaw i rieni', diweddarwyd ddiwethaf 4 Ebrill 2024
[16] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 8 Mai 2024: Cofnod y Trafodion, paragraff 36
[17] Cymharer Legislation.gov.uk, 'Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018', Adran 2 gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru', Ionawr 2004, tudalen 1
[18] Y Cyfarfod Llawn, 23 Mawrth 2021: Cofnod y Trafodion, paragraff 397

- Safbwynt sylfaenol Tribiwnlys Addysg Cymru yw y dylid cydnabod bod gan blant ADY o dan y system newydd os oedd ganddynt AAA o dan yr hen system ac nad yw eu hanghenion wedi newid.[19]

**21.** Gwnaethom nodi'r gostyngiad yn 2022 gyntaf.[20] Fodd bynnag, nid tan inni gwblhau ein trydydd gwiriad yn haf 2024 y cawsom fewnwelediadau clir ynghylch *pam* roedd ysgolion yn nodi bod gan lai o blant AAA/ADY. Gellir grwpio'r dystiolaeth a gawsom am y gostyngiad mewn niferoedd fel a ganlyn:

- Adnoddau ysgol cyfyngedig
- Anghenion addysgol nad yw ysgolion yn credu sy'n bodloni'r diffiniad o ADY
- 'Darpariaeth gyffredinol'

## Adnoddau ysgol cyfyngedig

### Llwyth gwaith staff

**22.** O dan yr hen system AAA, byddai gan blant sydd â'r anghenion ychwanegol mwyaf difrifol/cymhleth Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig ("Datganiad"). Mae datganiad yn ddogfen gyfreithiol sy'n nodi anghenion y plentyn a'r ddarpariaeth a fydd yn cael ei rhoi ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny. O dan y system ADY newydd, dylai plant sydd â'r anghenion mwyaf difrifol/cymhleth gael CDU statudol a gynhelir gan yr awdurdod lleol.[21] Rydym wedi clywed bod Datganiad yn gymharol debyg i CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol.[22] Nid ydym wedi clywed unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod CDUau awdurdodau lleol yn cymryd llawer mwy o amser i'w datblygu a'u cynnal ar gyfer staff nag yr oedd Datganiadau o dan yr hen system.

**23.** Fodd bynnag, mae'r system ADY wedi newid yn sylweddol statws y cynlluniau a ddatblygir ac a gynhelir gan ysgolion ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu isel i gymedrol. O dan y system ADY newydd, rhaid i unrhyw

---

[19] Tribiwnlys Addysg Cymru, 'Adroddiad Blynyddol 2022-23', Ionawr 2024, tudalen 1. Gweler hefyd: Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20 Mawrth 2024: Cofnod y Trafodion, paragraffau 146-147
[20] 'Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Diwygiadau addysg allweddol: gwiriad haf 2022', 8 Awst 2022
[21] Llywodraeth Cymru, 'Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021', 26 Mawrth 2021, tudalennau 103-114
[22] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20 Mawrth 2024: Cofnod y Trafodion, paragraff 147. Mae'r data sy'n sail i ffigur 2 hefyd yn cadarnhau hyn. Mae nifer y plant sydd â Datganiad AAA/CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol mewn gwirionedd wedi cynyddu ers 2016/17 (o 12,605 bryd hynny i 14,335 yn 2022/23), gan fynd yn groes i'r duedd o ostyngiad yn niferoedd AAA/ADY yn gyffredinol.

blentyn sydd ag ADY, ni waeth pa mor ysgafn, gael CDU. Mae CDUau yn ddogfennau cyfreithiol, ac mae gan rieni hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau CDU a'r ddarpariaeth a nodir mewn CDU.[23] Byddai plant sydd â lefelau angen isel i gymedrol wedi cael cynlluniau o dan yr hen system AAA hefyd: Cynlluniau Addysg Unigol (CAU), a oedd yn disgrifio'r cymorth yr oedd ei angen ar y plentyn ac yn gosod targedau ar gyfer cyflawniad.[24] Fodd bynnag, nid oedd CAUau yn ddogfennau cyfreithiol, ac nid oedd gan rieni hawl i apelio yn erbyn y ddarpariaeth a nodwyd ganddynt.[25]

**24.** Rydym wedi clywed gan nifer o ysgolion a sefydliadau ei bod yn cymryd llawer mwy o amser i ddatblygu a chynnal CDUau na CAUau.[26] Dywedodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol wrthym fod pob CDU yn cymryd tua 7 awr ar gyfartaledd i'w ddatblygu.[27] Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon fod ysgrifennu'r Cynlluniau Datblygu Unigol yn achosi straen, yn feichus, ac yn cymryd llawer o amser.[28]

**25.** Dywedodd un Cydlynydd ADY wrthym fod bron i bob rhiant yn derbyn gwahoddiadau'r ysgol i ddod i'r ysgol i siarad â'r Cydlynydd ADY a chyfrannu at y CDU – sy'n amlwg yn gadarnhaol iawn. Prif ddiben y cyfarfodydd hyn yw sicrhau bod gan y Cydlynydd ADY amser i siarad â phob teulu i drafod a ellid diwallu anghenion eu plentyn drwy addysgu gwahaniaethol, ac, os na, pa ddarpariaeth ychwanegol y dylai'r ysgol ei darparu. Ond mae hynny wedi golygu bod y Cydlynwyr ADY wedi cynnal 190 o gyfarfodydd â rhieni yn y flwyddyn gyntaf yn unig. Ychwanegodd y dylid sicrhau bod amser hefyd ar gael ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer CDUau mewn ysgolion yn barhaus, sy'n rhoi pwysau aruthrol ar amser staff.[29] Ategwyd y safbwyntiau hyn gan grŵp gorchwyl a gorffen Cydlynwyr ADY, a ddywedodd, yn ei adroddiad i Weinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd ym mis Chwefror 2024:

---

[23] Llywodraeth Cymru, 'Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021', 26 Mawrth 2021, tudalennau 352-359
[24] Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar, 'Sut y darperir cymorth ychwanegol (Saesneg yn unig)'
[25] Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, 'Anghenion Addysgol Arbennig: Sut i wneud apêl. Canllaw i rieni', Tachwedd 2019, tudalen 5
[26] Senedd Cymru, 'Gweithredu diwygiadau addysg: trydydd gwiriad: Crynodeb o ganfyddiadau ymweliadau ysgol', haf 2024; Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 23 NASUWT (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 15 Ysgol Gynradd Goetre Fawr (Pennaeth) (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 47 Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 25 Mudiad Meithrin; Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 30 Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig (Saesneg yn unig)
[27] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 28 Yr Undeb Addysg Cenedlaethol (Saesneg yn unig)
[28] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 29 Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon
[29] Senedd Cymru, 'Gweithredu diwygiadau addysg: trydydd gwiriad: Crynodeb o ganfyddiadau ymweliadau ysgol', haf 2024, tudalennau 6-7

> *"Mae CDUau yn wahanol iawn i'w cyfwerth agosaf (CAU) o dan y system flaenorol (AAA). Mae'r amser a gymerir i baratoi, llunio, cynnal, adolygu a diwygio CDU wedi rhoi galwadau cynyddol ar CADYau.* Dim ond targedau uniongyrchol yr oedd y CAUau blaenorol yn eu nodi. *Roeddent yn fyr a dim ond ychydig o amser roedd yn ei gymryd i'w llunio. Erbyn hyn mae dull gwahanol, llawer mwy ystyrlon gydag CDUau sy'n ceisio datblygu annibyniaeth i ddysgwyr o ran cyflawni dyheadau. [This requires additional planning and increased collaboration with parents or carers and also with wider agencies.]"*[30]
>
> (Mae'r testun Saesneg hwn yn ymddangos yn fersiwn Saesneg yr adroddiad, ond nid yw'n ymddangos yn y fersiwn Gymraeg.)

**26.** O ganlyniad, ymddengys bod darparu CDUau i bob plentyn sydd ag ADY a gweithredu'r CDUau hynny wedi cynyddu'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig ag ADY yn sylfaenol o dan y system newydd.

**27.** Mynegodd ysgolion bryderon ynghylch y llwyth gwaith gyda ni yn gyntaf yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion yn haf 2022. Ers hynny, mae llwyth gwaith wedi bod yn thema gyson ar draws y dystiolaeth a gasglwyd gennym. Mae NASUWT wedi dweud wrthym fod llwyth gwaith yn fater arwyddocaol iawn i athrawon sydd â chyfrifoldebau ADY/AAA, gan ddadlau nad yw Cydlynwyr ADY yn cael yr amser rheolaidd sydd ei angen arnynt i gyflawni eu rôl.[31] Nododd Estyn hefyd dueddiadau tebyg yn ei hadroddiad ym mis Medi 2023, gan nodi llwyth gwaith cynyddol ar gyfer staff yn ystod y cyfnod pontio i'r system newydd ac yn yr ymgysylltiad ychwanegol â disgyblion a theuluoedd sy'n ofynnol o dan y Ddeddf ADY.[32] Yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion eleni, dywedodd yr holl ysgolion prif ffrwd yr ymwelwyd â hwy wrthym eu bod wedi cynyddu capasiti eu Cydlynydd ADY/tîm ADY i ymdopi â'r llwyth gwaith ychwanegol hwn.[33]

**28.** Ond hyd yn oed gyda thimau ADY wedi'u hatgyfnerthu, dywedodd ysgolion wrthym fod y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â datblygu, cynnal a gweithredu pob CDU yn golygu nad yw'n ymarferol darparu CDU i bob plentyn a oedd ar gofrestr AAA yr ysgol yn flaenorol. Clywsom fod yn rhaid i ysgolion 'dorri'r gôt yn ôl y

[30] Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cydlynwyr ADY, 'Grŵp gorchwyl a gorffen Cydlynwyr ADY: adroddiad i Weinidog y Gymraeg a Addysg', 20 Chwefror 2024
[31] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 42 NASUWT Cymru (Saesneg yn unig)
[32] Estyn, 'Y system anghenion dysgu ychwanegol: Cynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol wrth gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol', Medi 2023, tudalennau 8-9
[33] Senedd Cymru, 'Gweithredu diwygiadau addysg: trydydd gwiriad: Crynodeb o ganfyddiadau ymweliadau ysgol', haf 2024, tudalen 2

brethyn' yn unol â hynny, a chydnabod bod gan lai o ddisgyblion ADY nag a oedd ag AAA o'r blaen.[34]

**29.** Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o bryderon o ran llwyth gwaith a fynegwyd gan staff ysgolion wrth iddynt roi'r Cod a'r Ddeddf ADY ar waith. Ers i'n hymchwiliad ddechrau, mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd wedi cymryd cyfres o gamau i gefnogi ysgolion, gan gynnwys:

- Ymestyn y cyfnod pontio AAA i ADY o flwyddyn.[35]
- Darparu cyllid pwrpasol i gefnogi'r cyfnod pontio, gan gynnwys £62 miliwn mewn refeniw, y gellir ei ddefnyddio i ddarparu capasiti ychwanegol i dimau ADY.[36]
- Comisiynu adolygiad annibynnol o amser digyswllt a chydnabyddiaeth Cydlynydd ADY. Mae'r adroddiad ar yr adolygiad yn nodi bod "tystiolaeth yn dangos bod yr amser digyswllt/wedi'i neilltuo hwn wedi cynyddu'n sylweddol i'r pwynt lle mae llawer o CADYau yn cael eu herio i ddod o hyd i amser i ymgymryd â phob tasg sy'n angenrheidiol o fewn yr wythnos waith."[37] Roedd ymateb Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd i'r adroddiad yn ategu bod cyllid wedi'i ddarparu i ysgolion i'w weithredu, ond nid oedd yn nodi mesurau pellach i fynd i'r afael â chapasiti.[38]

**30.** Yn ystod gwaith craffu ar lafar ym mis Mai eleni, cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fod y problemau o ran llwyth gwaith gyda'r system newydd hon yn wirioneddol arwyddocaol. Tynnodd sylw at y camau a gymerwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru, fel yr amlinellwyd uchod, ac ymrwymodd i barhau i ganolbwyntio ar faterion o ran llwyth gwaith yn y dyfodol.[39] Fodd bynnag, yn ei chyfnewidiadau amrywiol â ni drwy gydol yr ymchwiliad hwn, ac er inni holi'n uniongyrchol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cydnabod unrhyw gysylltiad rhwng

---

[34] Senedd Cymru, 'Gweithredu diwygiadau addysg: trydydd gwiriad: Crynodeb o ganfyddiadau ymweliadau ysgol', haf 2024, tudalennau 3-4
[35] Llywodraeth Cymru, 'Datganiad ysgrifenedig: Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018', 20 Mawrth 2023
[36] Llywodraeth Cymru, 'Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru: Ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i weithredu diwygiadau addysg', Ebrill 2024, tudalen 2; y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 8 Mai 2024: Cofnod y Trafodion, paragraff 40
[37] Llywodraeth Cymru, 'Adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen ar adolygiad o gyflog ac amodau gwaith y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol.', 20 Chwefror 2024
[38] Llywodraeth Cymru, 'Datganiad ysgrifenedig: Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Cydlynwyr ADY', 20 Chwefror 2024
[39] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 8 Mai 2024: Cofnod y Trafodion, paragraff 40

gostyngiad yn nifer y plant sydd ag AAA/ADY a'r galwadau cynyddol ar staff o ganlyniad i'r system ADY.[40]

### Pwysau ariannol

**31.** Rydym wedi clywed dro ar ôl tro bod y pwysau ariannol sy'n wynebu ysgolion yn ei gwneud yn heriol i roi darpariaeth briodol ar waith ar gyfer dysgwyr – hyd yn oed cyn i ofynion ychwanegol y diwygiadau ADY gael eu hystyried. Dywedodd un pennaeth wrthym fod cyllid yn 'annigonol', a disgrifiodd sefyllfa ariannol ysgolion fel un 'llwm'.[41] Disgrifiodd UNSAIN gyflwr cyllid ysgolion fel un 'hollol enbyd', gan awgrymu bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn wynebu 'argyfwng dirfodol'.[42] Dywedodd NASUWT wrthym fod cyllid wedi effeithio ar ansawdd y cymorth a gynigir i blant sydd ag anghenion ychwanegol drwy addysgu arferol.[43] Gwnaeth unigolyn a ymatebodd i'n hymgynghoriad bwyntiau tebyg,[44] ac awgrymodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig a Chanolfan Blant Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe y gallai cyllid effeithio ar weithredu'r diwygiadau ADY a'r Cwricwlwm i Gymru.[45]

**32.** Ochr yn ochr â'r pwysau ariannol cyffredinol sy'n wynebu ysgolion, rydym wedi clywed bod gweithredu'r Ddeddf ADY wedi arwain at ei heriau ariannol ei hun. Yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion ar ddechrau'r ymchwiliad hwn, soniodd yr ysgolion wrthym fod gweithredu'r Ddeddf ADY yn ddrud. Yn ystod ein gwiriadau dilynol dros y ddwy flynedd ganlynol, daeth y neges yn fwy amlwg. Y flwyddyn ganlynol, dechreuodd ysgolion fynegi pryder ynghylch yr arian sydd ar gael i ddiwallu anghenion plant sydd ag ADY isel i gymedrol.

**33.** Eleni, clywsom gan un ysgol fod gan rai rhieni ddisgwyliadau afrealistig ynghylch i ba raddau y gall yr ysgol ddiwallu anghenion hynod bersonol pob dysgwr ar yr un pryd. Eglurodd un arall wrthym fod y galw cynyddol am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol o dan y Ddeddf, ynghyd â'r amgylchedd ariannol heriol i ysgolion, yn golygu bod angen i'r ysgol rannu darpariaeth ar draws disgyblion lle bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol; byddai'n amhosibl rhoi darpariaeth cwbl bwrpasol i bob plentyn sydd â CDU. Eglurodd yr ysgol ei bod wedi buddsoddi mewn rhannu grwpiau blwyddyn yn ddosbarthiadau o tua 20 o

[40] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10 Mai 2023: Cofnod y Trafodion, paragraffau 93-94
[41] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 15 Ysgol Gynradd Goetre Fawr (Pennaeth) (Saesneg yn unig)
[42] Tystiolaeth ysgrifenedig, IER 46 UNSAIN (Saesneg yn unig)
[43] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 23 NASUWT (Saesneg yn unig)
[44] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 39 Unigolyn (Saesneg yn unig)
[45] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 47 Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 43 Canolfan Blant Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (Saesneg yn unig)

ddisgyblion, a oedd, yn eu barn hwy, o fudd i bob dysgwr, ond yn enwedig y rhai sydd ag anghenion ymddygiadol, cymdeithasol ac emosiynol – gan gynnwys plant â CDU. Er mwyn darparu'r capasiti ychwanegol o ran athrawon i ddarparu ar gyfer y dosbarthiadau llai, mae'r feithrinfa'n cael ei goruchwylio o ddydd i ddydd gan Gynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch profiadol, yn hytrach nag athrawon meithrin.[46]

**34.** Rydym hefyd wedi clywed nad yw'r ffordd y mae cyllid yn cael ei drosglwyddo i ysgolion drwy fformiwlâu ariannu awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth ADY yn ddigon clir. Yn ei adroddiad ym mis Medi 2023, ysgrifennodd Estyn "n[a]d oedd gan uwch arweinwyr mewn ysgolion ddealltwriaeth ddigon clir o benderfyniadau am ariannu ADY yn eu hawdurdod, na sut mae awdurdodau lleol wedi defnyddio grantiau ADY Llywodraeth Cymru". Dywedodd Estyn fod ysgolion yn wynebu costau ychwanegol o dan y Ddeddf, sy'n fwy na'r cyllid ychwanegol y maent wedi'i gael gan Lywodraeth Cymru.[47] Dywedodd rhai ysgolion wrthym fod hyn yn arbennig o anodd i rai plant sydd ag anghenion ychwanegol nad ydynt wedi cael diagnosis. Yn y pen draw, mae angen i'r ysgol ddiwallu anghenion y disgyblion hyn, ond ni chaiff unrhyw gyllid ychwanegol i wneud hynny.[48]

**35.** Yn gyffredinol, teimlai rhieni fod llai o ffocws ar gyllid o dan y system newydd. Dywedodd un rhiant wrthym fod CDUau yn fwriadol amwys oherwydd diffyg cyllid. Dywedodd un arall:

> *"I see it as a bit of a dilution of entitlement, whereas before the school would get funding for whatever your statement outlined, that's been removed and now the school are recommending what support your child should get without any extra funding, and it feels like, they are never going to actually support my child to the level he needs because they aren't getting any funding to do that."*[49]

**36.** Mae'r Ddeddf ADY yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol ariannu Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol yn uniongyrchol – yn hytrach na thrwy gyllidebau'r ysgolion eu hunain – pan mai'r awdurdod lleol yn hytrach na'r ysgol

---

[46] Senedd Cymru, 'Gweithredu diwygiadau addysg: trydydd gwiriad: Crynodeb o ganfyddiadau ymweliadau ysgol', haf 2024, tudalennau 3, 6-7 a 13
[47] Estyn, 'Y system anghenion dysgu ychwanegol: Cynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol wrth gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol', Medi 2023, tudalennau 42-45
[48] Senedd Cymru, 'Gweithredu diwygiadau addysg: trydydd gwiriad: Crynodeb o ganfyddiadau ymweliadau ysgol', haf 2024, tudalen 6
[49] Senedd Cymru, 'Data wedi'u hailddadansoddi o Gyfweliadau Teuluol: Gweithredu Diwygiadau Addysg (Dogfen Gymraeg, sy'n cynnwys y dyfyniad hwn yn Saesneg)', Haf 2023, tudalennau 2-4

sy'n gyfrifol am CDU. Yn gyffredinol, mae CDU yn cael ei gynnal gan awdurdod lleol:

- pan na fyddai'n rhesymol i'r ysgol sicrhau'r darpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen;
- os yw'r ADY yn golygu na all yr ysgol bennu eu graddau na'u natur yn ddigonol; neu
- na all yr ysgol bennu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn ddigonol.[50]

Mae'r Cod yn rhoi mwy o fanylion ynghylch pryd y dylai CDU fod yn gyfrifoldeb yr ysgol a phryd y dylai fod yn gyfrifoldeb yr awdurdod lleol. Mae'r Cod hefyd yn gosod disgwyliad ar awdurdodau lleol i ddatblygu a chyhoeddi cyfres o egwyddorion y byddant yn eu defnyddio wrth gymhwyso'r meini prawf hyn.[51] Dywedodd un ysgol wrthym fod ei hawdurdod lleol wedi cyhoeddi canllawiau sy'n nodi, yn gyffredinol, y bydd yr awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer unrhyw blentyn sydd angen mwy na 25 awr o gymorth cynorthwyydd addysgu yr wythnos.[52] Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd pob awdurdod lleol wedi cyhoeddi eu cyfres o egwyddorion, pryder yr ydym wedi bod yn ei godi gyda Llywodraeth Cymru ers ein hail wiriad yn 2023.[53]

**Cyllid AAA yn Lloegr**

Yn Lloegr, fel yng Nghymru, ni chaiff cyllid AAA ei ddyrannu fesul plentyn. Mae'n rhan o'r Grant Ysgolion Penodedig, y mae'r Adran Addysg yn ei ddarparu i bob awdurdod lleol i ariannu ysgolion. Mae'r Grant Ysgolion Penodedig yn cynnwys elfen 'Anghenion Uchel' sy'n ystyried nifer y disgyblion sydd ag anableddau ac AAA. Rhaid i academïau ac ysgolion prif ffrwd a gynhelir gan awdurdod lleol yn Lloegr ddarparu ar gyfer disgyblion sydd ag AAA o'r gyllideb a roddwyd iddynt, ond pan fo cost y ddarpariaeth yn fwy na £6,000 ar gyfer disgybl unigol (neu £10,000 mewn ysgolion arbennig), gall yr awdurdod lleol ddarparu cyllid ychwanegol.[54] Nid oes ffigur mor gyson ledled Cymru. Fodd bynnag, dylai'r meini

[50] Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, Adran 12(2)(a)
[51] Llywodraeth Cymru, 'Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021', 26 Mawrth 2021, paragraffau 12.36-12.46
[52] Senedd Cymru, 'Gweithredu diwygiadau addysg: trydydd gwiriad: Crynodeb o ganfyddiadau ymweliadau ysgol', haf 2024, tudalen 4
[53] 'Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol', 17 Gorffennaf 2023; 'Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg', 23 Ebrill 2024
[54] Senedd y DU, 'Anghenion Addysgol Arbennig: Cymorth yn Lloegr (Saesneg yn unig)', 9 Chwefror 2024, tudalen 15

prawf ar gyfer penderfynu a ddylai CDU gael ei gynnal gan yr awdurdod lleol yn hytrach na'r ysgol gael eu nodi gan bob awdurdod lleol mewn cyfres o egwyddorion.

**Cyllid Anghenion Cymorth Ychwanegol yn yr Alban**

Mae gan ddisgybl yn yr Alban 'Anghenion Cymorth Ychwanegol' os, am ba bynnag reswm, mae'n annhebygol o allu cael budd o addysg yn yr ysgol heb gymorth ychwanegol. Mae hwn yn ddiffiniad ehangach na'r diffiniad o ADY yng Nghymru. Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i nodi angehnion o'r fath a gwneud darpariaeth ddigonol ac effeithlon ar gyfer cymorth ychwanegol o'r fath fel sy'n ofynnol gan y plentyn neu'r person ifanc hwnnw.[55]

Bydd cymorth addysgol a ddarperir i ddisgyblion sydd ag Anghenion Cymorth Ychwanegol gan ysgolion neu awdurdodau lleol yn cael ei ariannu drwy gyllidebau craidd awdurdodau lleol (naill ai drwy gyllid dirprwyedig ysgolion neu'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol, yn dibynnu ar natur y cymorth). Fel yng Nghymru, awdurdodau lleol sy'n penderfynu sut i drosglwyddo cyllid i ysgolion, yn seiliedig ar flaenoriaethau ac anghenion lleol, ar ôl yn gyntaf bodloni'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau statudol a nodir mewn cyfres o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol y cytunwyd arnynt ar y cyd. [56]

Bydd y trefniadau ariannu ar gyfer cymorth a ddarperir i ddisgyblion sydd ag Anghenion Cymorth Ychwanegol gan asiantaethau eraill megis byrddau iechyd, neu gan awdurdod lleol sy'n arfer ei swyddogaethau ar wahân i addysg (e.e. gwaith cymdeithasol) – yn dibynnu ar y cymorth penodol a ddarperir. [57]

**Cyllid AAA yng Ngogledd Iwerddon**

Mae gan Ogledd Iwerddon system debyg i'r system AAA flaenorol yng Nghymru (sef Gweithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy a Datganiadau).

Pan mae gan ddisgybl yng Ngogledd Iwerddon AAA 'Cyfnod 1' ac mae angen darpariaeth addysgol arbennig a ddarperir gan yr ysgol arno, mae'r ysgol yn talu'r costau hyn o'i chyllideb ei hun, Pan mae gan ddisgybl AAA 'Cyfnod 2', gan gynnwys darpariaeth addysgol arbennig a ddarperir gan yr ysgol, yn ogystal â rhywfaint o ddarpariaeth allanol gan yr Awdurdod Addysg neu gan weithwyr

[55] Legislation.gov.uk, 'Deddf Addysg (Cymorth Ychwanegol ar gyfer Dysgu) (Yr Alban) 2004' (Saesneg yn unig), adran 4(1)
[56] Llywodraeth yr Alban, 'Llywodraeth yr Alban yn darparu cyllid i addysg: datganiad Rhyddid Gwybodaeth' (Saesneg yn unig), 15 Ionawr 2024
[57] Llywodraeth yr Alban, 'Cymorth ychwanegol ar gyfer dysgu: canllawiau statudol 2017' (Saesneg yn unig), 20 Rhagfyr 2017

proffesiynol yr Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae'r ysgol yn talu costau'r elfen gyntaf a bydd yr Awdurdod Addysg yn cyfrannu at yr elfennau allanol. Os bydd disgybl ar Gyfnod 3 ac mae ganddo Ddatganiad, bydd yr Awdurdod Addysg yn talu'r costau, yn ogystal â'r Adran Iechyd os bydd costau sy'n gysyllteidig ag iechyd.[58]

**37.** Mewn ymateb i'n pryderon ynghylch capasiti ariannol ysgolion i weithredu'r system ADY, mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at y buddsoddiad y mae wedi'i wneud i gefnogi ysgolion i weithredu'r system ADY, i gydnabod "pwysau gweithredu wrth reoli system AAA gyfochrog."[59] Yn ei sesiwn dystiolaeth gyda ni ar 8 Mai 2024, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wrthym fod sefyllfa'r gyllideb yn gyffredinol yn heriol ac yn anodd iawn i ysgolion.[60] Eglurodd inni wedyn mewn gohebiaeth fod cyllid ar gyfer ADY yn cael ei ddarparu'n bennaf i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw heb ei neilltuo. At hynny, ers 2020 mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi:

- tua £60 miliwn i weithredu darpariaeth ADY i gynyddu adnoddau mewn ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol i weithredu'r system ADY;
- bron i £51 miliwn mewn darpariaeth ADY i hybu darpariaeth ar gyfer dysgwyr ADY; a
- £60 miliwn mewn cyllid cyfalaf ADY i awdurdodau lleol wella neu greu mannau a chyfleusterau cynhwysol i gefnogi dysgwyr sydd ag ADY.[61]

**38.** Cadarnhaodd gohebiaeth Ysgrifennydd y Cabinet hefyd fod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gopi o gyfres o egwyddorion pob awdurdod lleol, a'r cyfeiriadau gwe lle cânt eu cyhoeddi ar-lein, erbyn diwedd mis Mehefin 2024 fan bellaf.[62]

[58] Adran Addysg Gogledd Iwerddon, 'Cofnodi Plant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) Mewn Ysgolion – Canllawiau newydd – Symud i Dri Cham Darpariaeth Addysgol Arbennig' (Saesneg yn unig), 8 Mawrth 2021, tudalen 3; Adran Addysg Gogledd Iwerddon, 'Cynllun Ariannu Cyffredin ar gyfer Rheoli Ysgolion yn Lleol 2023-24' (Saesneg yn unig), Ebrill 2023, tudalen 47
[59] Llywodraeth Cymru, 'Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru: Ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i weithredu diwygiadau addysg', Ebrill 2024, tudalen 10
[60] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 8 Mai 2024: Cofnod y Trafodion, paragraff 60
[61] 'Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', 18 Mehefin 2024, tudalennau 3-4
[62] 'Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', 18 Mehefin 2024, tudalen 2

## Anghenion addysgol nad yw ysgolion yn credu sy'n bodloni'r diffiniad o ADY

**39.** Thema arall yn y dystiolaeth a gasglwyd gennym yw nad yw pob disgybl sydd ag anghenion ychwanegol yn cael ei ddosbarthu'n ffurfiol fel un ag ADY. Mae ysgolion wedi dweud wrthym, er bod gan rai o'r dysgwyr hyn anghenion addysgol sy'n wahanol i mwyafrif y disgyblion o'r un oedran (efallai anghenion ymddygiadol, cymdeithasol a/neu emosiynol), nid yw'r anghenion hynny o reidrwydd yn bodloni'r diffiniad o ADY yn y Ddeddf.[63] Roedd llawer o'r plant hyn yn arfer bod ar gofrestrau AAA ysgolion o dan yr hen drefn. Dywedodd Estyn wrthym:

> *"... there is that grey area in the middle where we find, as has been pointed out now, that those pupils who need more than universal support, but don't meet that threshold, that criteria for formal identification of ALN, are still a challenge for schools."*[64]

**40.** Yn ystod trafodaeth grŵp ffocws ym mis Ebrill 2023 gyda 24 o weithwyr ysgol proffesiynol o 20 o ysgolion ledled Cymru, cafodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd wybod bod cyfran sylweddol o ddisgyblion yn cael eu cydnabod fel rhai sydd ag anghenion ychwanegol, a'u bod yn aml yn cael ymyriadau wedi'u targedu i ddiwallu'r anghenion hynny, ond nad oedd ganddynt CDU.[65] Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, ysgrifennodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol fod y 18,000 (ar y pryd) yn llai o ddysgwyr y cydnabuwyd bod ganddynt ADY o ganlyniad uniongyrchol i'r Ddeddf. Roedd yn argymell cynllun anstatudol byrrach ar gyfer plant nad oes ganddynt ADY ond y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt yn yr ysgol.[66]

**41.** Teimlai ein Grŵp Cynghori Ar-lein nad oedd CDU yn cael ei ddarparu i rai plant a oedd yn amlwg ag ADY. Clywsom fod hyn yn arbennig o wir pan oedd yn ymddangos bod y plentyn yn ymdopi yn yr ysgol. Galwodd un rhiant y grŵp hwn o ddysgwyr yn, 'plant yn y canol', a dywedodd wrthym eu bod yn cael eu hanwybyddu, na allant gadw i fyny â'u cyfoedion, ac y byddent yn ei chael hi'n anodd cael addysg dda heb ddarpariaeth benodol.[67] Ailadroddodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar rai o'r pryderon hyn. Dywedodd wrthym eu bod yn dal i glywed tystiolaeth anecdotaidd gan rieni plant byddar am rwystrau cyn cael y lefel briodol o gymorth. Dywed rhai eu bod wedi clywed nad yw eu plant yn gymwys ar gyfer CDU, er gwaethaf cyfeiriadau penodol y Cod ADY at

---

[63] Senedd Cymru, 'Gweithredu diwygiadau addysg: trydydd gwiriad: Crynodeb o ganfyddiadau ymweliadau ysgol', haf 2024, tudalennau 3-4
[64] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 21 Chwefror 2024: Cofnod y Trafodion, paragraff 192
[65] Senedd Cymru, 'Ymgysylltu â Dinasyddion: Gweithredu diwygiadau addysg', tudalen 7
[66] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 28 Yr Undeb Addysg Cenedlaethol (Saesneg yn unig)
[67] Senedd Cymru, 'Data wedi'u hailddadansoddi o Gyfweliadau Teuluol: Gweithredu Diwygiadau Addysg', Haf 2023, tudalen 9

gymhwysedd dysgwyr sydd â cholled clyw.[68] Awgrymodd rhai rhieni yn ein Grŵp Cynghori Ar-lein hyd yn oed fod ysgolion yn cael eu hysbysu'n benodol i leihau nifer y plant y nodir bod ganddynt ADY yn fwriadol.[69]

**42.** Awgrymodd rhieni eraill fod y Cod ADY ei hun yn aneglur a'i fod yn cael ei ddehongli'n anghyson gan ysgolion ac awdurdodau lleol a oedd – yn anghywir, yn eu barn hwy – yn penderfynu bod gan rai disgyblion anghenion addysgol nad oeddent yn gyfystyr ag ADY. Ategwyd y farn hon gan y Barnwr Jane McConnell, Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru:

> *"If I were to look for a phrase that would summarise the legislation, I think I would call it 'intellectually challenging'. Now, I'm somebody who's been in education for 20-odd years, I find that legislation intellectually challenging, and so, therefore, for a parent of a child or young person, ân ALNCo at a school, a local authority officer, they are going to find that intellectually challenging as well."*[70]

**43.** Mewn llythyr atom ym mis Medi 2022, dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd wrthym fod "gormod o achosion wedi'u nodi yn y rhifau cyffredinol neu'r disgyblion ar y gofrestr AAA/ADY", a oedd wedi'i nodi yn ystod y cyfnod pontio i'r system ADY newydd. Aeth ymlaen i ychwanegu bod categori "anawsterau dysgu cyffredinol" wedi'i ddileu o'r system casglu data, a:

> *"... c[h]afodd llawer o ddisgyblion eu tynnu oddi ar y gofrestr AAA yn gyfan gwbl gan nad oedd modd eu nodi mewn unrhyw gategori arall. Mae hyn yn awgrymu'n gryf nad oedd llawer o'r disgyblion a oedd wedi'u categoreiddio fel rhai sydd ag anawsterau dysgu cyffredinol mewn gwirionedd yn bodloni'r diffiniad cyfreithiol o gael AAA neu ADY."*[71]

**44.** Eleni, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wrthym fod ADY, ers iddi ddod i'w swydd, wedi bod yn ffocws cryf iawn iddi. Fe'n sicrhaodd ei bod yn ceisio mynd at wraidd yr hyn sy'n digwydd, a chofnododd ei bod yn poeni'n fawr am y gostyngiad yn y niferoedd ADY a gofnodir. Ailadroddodd farn y cyn-Weinidog fod adolygiad systematig o niferoedd ADY ym mhob ysgol, ac felly

[68] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 51 Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (Saesneg yn unig)
[69] Senedd Cymru, 'Grŵp Cynghori Ar-lein – Gweithredu Diwygiadau Addysg', 14 Mawrth 2024, tudalennau 3-6
[70] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20 Mawrth 2024: Cofnod y Trafodion, paragraff 153
[71] 'Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', 28 Medi 2022

byddai rhai plant wedi cael eu tynnu oddi ar y gofrestr bryd hynny, efallai am reswm da iawn—efallai nad oedd angen y cymorth arnynt mwyach. Rhoddodd yr enghraifft o un ysgol a oedd ag ychydig iawn o blant â CDU, ond sy'n gweithio y tu allan i'r system ADY gyda'r plant hynny yn y canol hefyd i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.[72]

**45.** Fodd bynnag, fe wnaeth gydnabod pryderon y Llywydd fod y Cod a'r Ddeddf yn 'heriol yn ddeallusol', a oedd, meddai, yn 'bwynt difrifol y mae'n rhaid iddi edrych arno mewn gwirionedd'. Aeth ymlaen i ddweud y byddai'n cychwyn adolygiad o ba mor gyson y mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu.[73] Yn ystod datganiadau dilynol yn y Cyfarfod Llawn, ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet mai ei blaenoriaeth yw "sicrhau bod gennym sylfeini deddfwriaethol cadarn i ategu ein nodau polisi", ac mae wedi nodi ei bod yn fodlon edrych ar y Cod a'r Ddeddf eu hunain yn ogystal ag ymdrechu am fwy o gysondeb yn y modd y cânt eu gweithredu.[74]

## 'Darpariaeth gyffredinol'

**46.** O dan y Ddeddf ADY, mae gan blentyn ADY os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd "sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol." Yn ei dro, ystyr darpariaeth ddysgu ychwanegol yw "darpariaeth addysgol neu ddarpariaeth hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill sydd o'r un oedran".[75]

**47.** Mae rhai ysgolion wedi dweud wrthym, er eu bod yn cydnabod bod gan rai disgyblion anhawster neu anabledd dysgu, nad ydynt yn credu bod angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arnynt oherwydd bod darpariaeth safonol yr ysgol (a elwir yn 'ddarpariaeth gyffredinol' neu fel arall) yn diwallu eu hanghenion addysgol. O ganlyniad i hyn, nid yw'r ysgolion hyn yn ystyried bod gan ddisgyblion o'r fath ADY at ddibenion y Ddeddf ADY.

**48.** Yn ystod ymweliadau'r Pwyllgor yn haf 2023, clywsom fod y disgyblion hyn yn tueddu i fod yn derbyn ymyriadau 'Gweithredu gan yr Ysgol' neu hyd yn oed 'Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy' o dan y system AAA. Yn ystod yr ymweliadau ag ysgolion eleni, eglurodd ysgolion wrthym fod y Cwricwlwm i Gymru yn caniatáu lefelau uwch o wahaniaethu gan athrawon. Mae'r cwricwlwm yn annog ffocws ar

---

[72] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 8 Mai 2024: Cofnod y Trafodion, paragraff 37
[73] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 8 Mai 2024: Cofnod y Trafodion, paragraff 19
[74] Y Cyfarfod Llawn, 8 Mai 2024: Cofnod y Trafodion, paragraff 371; Y Cyfarfod Llawn, 14 Mai 2024: Cofnod y Trafodion, paragraff 126
[75] Legislation.gov.uk, 'Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018:', adrannau 2-3

'gyfnod, nid oedran', sy'n golygu y gallai plant na allent gael mynediad at y cwricwlwm yn flaenorol – ac felly angen darpariaeth ychwanegol – gael eu haddysgu'n fwy cynhwysol bellach ar lefel sy'n addas i'w hanghenion.[76] Yn eu hymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad, nododd Colegau Cymru fod llawer o golegau wedi cymryd camau tebyg i wella eu cynnig cyffredinol i ddiwallu anghenion dysgwyr mewn modd cynhwysol cyn belled ag y bo'n ymarferol yn hytrach na bod angen darpariaeth ddysgu ychwanegol.[77]

**49.** Roedd rhai o'r rhieni y buom yn siarad â hwy fel rhan o'n Grŵp Cynghori Ar-lein hefyd wedi nodi'r duedd tuag at ysgolion yn diwallu anghenion rhai dysgwyr drwy 'ddarpariaeth gyffredinol' yn hytrach na thrwy ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Fodd bynnag, teimlai'r rhieni hyn fod darpariaeth gyffredinol yn "esgus cyfleus" a allai arwain at ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer pob math o anabledd, a oedd yn golygu nad oedd anghenion rhai disgyblion yn cael eu diwallu.[78]

**50.** Nid nhw oedd yr unig rai i fynegi pryderon ynghylch y ddibyniaeth ar 'ddarpariaeth gyffredinol' i ddiwallu anghenion dysgwyr sydd ag anableddau neu anawsterau dysgu. Dywedodd Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru wrthym mewn modd swrth:

> *"… there's no such thing as universal provision in the law. It's not in the ALN Act, it's not in the regulations, it's not mentioned in the code. But there's a lot of conversation about children not having ALN because there's provision that's provided for them under universal provision."*

**51.** Dywedodd fod y profion cyfreithiol ar gyfer ADY yn golygu bod plentyn yn cael ei gymharu â'r plentyn arferol sy'n datblygu, neu'r ddarpariaeth a ddarperir mewn ysgolion prif ffrwd ledled Cymru. O ganlyniad i hyn, nid yw addysgu dosbarth cyfan cynhwysol mewn unrhyw un ysgol yn rheswm dros wrthod CDU i blentyn.[79]

**52.** Er gwaethaf pryderon y Llywydd, mae Llywodraeth Cymru wedi croesawu'n gyson y defnydd o addysgu mwy cynhwysol fel ffordd o ddiwallu anghenion plant

[76] Senedd Cymru, 'Gweithredu diwygiadau addysg: trydydd gwiriad: Crynodeb o ganfyddiadau ymweliadau ysgol', haf 2024
[77] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 6 ColegauCymru (Saesneg yn unig)
[78] Senedd Cymru, 'Grŵp Cynghori Ar-lein – Gweithredu Diwygiadau Addysg', 14 Mawrth 2024, tudalennau 3-6
[79] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 20 Mawrth 2024: Cofnod y Trafodion, paragraff 150

sydd ag anableddau neu anawsterau dysgu. Yn 2022, dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wrthym:

> *"… mae egwyddorion addysg gynhwysol, sy'n gosod anghenion yr unigolyn wrth wraidd ei addysg, yn sail i'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Bellach mae gan athrawon fwy o hyblygrwydd ac wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm maen nhw wedi gwella eu sgiliau i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion unigol. Er bod y broses o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn parhau, mae agweddau ar ddull addysgu mwy cynhwysol wedi bod yn datblygu yng Nghymru ers peth amser."*[80]

**53.** Ailadroddodd y Gweinidog safbwyntiau tebyg inni yn ystod gwaith craffu ar lafar ym mis Mai 2023. Fodd bynnag, dywedodd wrthym hefyd nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhagweld y byddai'r Cwricwlwm i Gymru wedi effeithio ar nifer y disgyblion y nodwyd bod ganddynt ADY, oherwydd pan luniwyd y diwygiadau ADY nid oedd Llywodraeth Cymru wedi disgwyl gallu alinio ADY a'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm.[81]

**54.** Eleni, ailadroddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y farn bod addysgu mwy cynhwysol, a ysgogwyd yn rhannol gan y Cwricwlwm i Gymru, yn cyfrannu at y gostyngiad mewn niferoedd:

> *"I don't think we should say that it's all negative, because, for me, there is something here about the fact that all our reforms are designed to make universal provision better in schools, whether that's the whole-school approach to mental health or curriculum reform. It's a question, I think, of, hopefully, some children having their needs met better by the reforms that we are taking forward."*[82]

## Ein barn ni

### Pam mae llai o blant yn cael eu diffinio fel rhai sydd ag AAA/ADY

**55.** O bopeth rydym wedi'i glywed gan arweinwyr ysgolion, athrawon, teuluoedd a hyd yn oed Llywodraeth Cymru, ymddengys bod nifer y plant sydd ag anableddau neu anawsterau dysgu yn cynyddu ar draws pob ystod oedran. Er

[80] 'Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', 28 Medi 2022
[81] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10 Mai 2023: Cofnod y Trafodion, paragraffau 13 ac 83
[82] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 8 Mai 2024: Cofnod y Trafodion, paragraff 36

hynny, mae nifer y plant y nodwyd yn ffurfiol bod ganddynt AAA/ADY wedi gostwng 32 y cant ers cyflwyno'r system ADY. Ac, yn hollbwysig, mae'r gostyngiad yn y niferoedd yn rhagddyddio'r system ADY: roedd 12 y cant yn llai o blant wedi'u nodi ag AAA yn 2020/21, cyn dechrau gweithredu'r system ADY, o gymharu â 2016/17.

**56.** Rydym wedi clywed gwahanol esboniadau am y gostyngiad hwn.

**57.** Un esboniad yw na ddylai rhai plant fod wedi bod ar gofrestrau AAA yn y lle cyntaf oherwydd nad oedd eu hanghenion ychwanegol yn bodloni'r diffiniad o AAA/ADY. Mae'r gostyngiad oherwydd bod y disgyblion hynny ers hynny (yn gywir, yn ôl y ddadl hon) wedi'u tynnu oddi ar gofrestrau AAA eu hysgolion, a/neu heb eu trosglwyddo i'r system ADY.

**58.** Gall hyn fod yn wir i rai dysgwyr, ond nid ydym yn derbyn y gall yr esboniad hwn gyfrif am y gostyngiad cyffredinol sylweddol yn niferoedd AAA/ADY. Mae Llywodraeth Cymru a Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru wedi pwysleisio dro ar ôl tro y dylid dosbarthu pob plentyn ag AAA o dan yr hen system fel rhai sydd ag ADY o dan y system newydd, oni bai bod eu hanghenion wedi newid. Nid ydym wedi clywed unrhyw dystiolaeth o gwbl nad oes gan nifer sylweddol o blant anghenion ychwanegol mwyach (mewn gwirionedd, rydym wedi clywed y gwrthwyneb). Ac ni allwn weld pam y byddai ysgolion byth wedi gosod plant ar gofrestrau AAA, gyda'r gwaith sylweddol sydd ynghlwm wrth hynny, oni bai bod staff ysgol a theuluoedd yn credu bod angen gwneud hynny.

**59.** Esboniad arall yw bod addysgu yn fwy cynhwysol y dyddiau hyn, yn enwedig o dan y Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn golygu bod llai o blant angen darpariaeth ychwanegol oherwydd bod eu hanghenion yn cael eu diwallu gan addysgu arferol – a elwir yn 'ddarpariaeth gyffredinol' – ac felly mae gan lai o blant anghenion sy'n bodloni'r diffiniad o ADY.

**60.** Rydym yn cydnabod ac yn cymeradwyo'r camau y mae llawer o ysgolion yn eu cymryd tuag at addysgu cynhwysol, yn enwedig o dan y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, byddai'n rhaid cael newidiadau sylfaenol ar raddfa fawr i addysgeg addysgu ledled Cymru gyfan mewn cyfnod hynod fyr o amser i egluro unrhyw gyfran sylweddol o'r gostyngiad yn nifer y plant sydd ag AAA/ADY. Byddai angen i'r newidiadau hyn fod wedi rhagddyddio'r Cwricwlwm i Gymru i egluro'r gostyngiad mewn niferoedd ers 2016/17 ac oherwydd bod y rhan fwyaf o ddisgyblion ysgolion uwchradd yn dal i gael eu haddysgu o dan yr hen gwricwlwm. Yn y pen draw, ar draws yr holl deuluoedd yr ydym wedi siarad â hwy fel rhan o'r ymchwiliad hwn a'n hymchwiliad i fynediad plant anabl at ofal plant ac addysg, cymharol ychydig

o dystiolaeth a gasglwyd gennym i gefnogi symudiad mor seismig tuag at gynhwysiant.

**61.** Mae'n bosibl bod y ddau esboniad a nodir uchod wedi cyfrannu at y gostyngiad yn niferoedd AAA/ADY. Ond credwn fod y prif sbardun yn llawer symlach: nid oes gan ysgolion ac awdurdodau lleol ddigon o adnoddau i roi darpariaeth wedi'i thargedu ar waith ar gyfer pob plentyn sydd ag ADY. Mae'r prinder adnoddau hwn o ganlyniad i flynyddoedd o danariannu systemig o ddarpariaeth AAA/ADY mewn ysgolion, a waethygwyd yn fwy diweddar gan y gofynion ychwanegol a roddir ar ysgolion gan y Cod a'r Ddeddf ADY.

**62.** Ers dechrau'r Chweched Senedd, rydym wedi siarad â nifer o arweinwyr ysgolion, athrawon, llywodraethwyr, rhieni, a disgyblion fel rhan o'r ymchwiliad hwn ac eraill. Rydym wedi arsylwi sut mae ysgolion yn ei chael hi'n fwyfwy anodd rhoi'r ddarpariaeth y maent yn credu sy'n angenrheidiol i gefnogi eu dysgwyr ar waith. Rydym wedi arsylwi staff yn mynd gam ymhellach – yn gweithio oriau hirach, yn gwneud rolau mwy cymhleth nag y cawsant eu cyflogi i'w gwneud – i helpu disgyblion. Ond, yn sylfaenol, yn hollbwysig, nid oes gan ysgolion ar y cyd yr adnoddau i ddiwallu anghenion pob plentyn sydd ag AAA neu ADY. Ac felly, wrth wynebu penderfyniadau bron yn amhosibl ynglŷn â sut i flaenoriaethu'r adnoddau sydd ganddynt, maent yn canolbwyntio ar y plant sydd â'r anghenion mwyaf.

**63.** Plant sydd ag anghenion isel i gymedrol sydd bellach ddim yn cael eu cofnodi fel rhai sydd ag ADY. Rydym yn pryderu, heb ymyrraeth ar unwaith gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu ysgolion i ddarparu adnoddau priodol ar gyfer cymorth i'r plant hynny, bod y grŵp hwnnw o blant mewn perygl o gael eu hanghofio.

### Y camau nesaf

**64.** Rydym yn croesawu pryder Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch y gostyngiad yn nifer y plant y nodwyd bod ganddynt AAA/ADY, a'i hymrwymiad i ddeall y rhesymau dros y gostyngiad hwnnw. Rydym hefyd yn cefnogi'n gryf ei bwriad i gynnal adolygiad o'r Cod a'r Ddeddf ADY, sydd, yn ein barn ni, yn gam cyntaf angenrheidiol a phwysig i sicrhau bod y ddeddfwriaeth hon yn cyflawni ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd.

**65.** Yn gyntaf oll, mae angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael ag eglurder y Cod a'r Ddeddf ADY, sy'n amlwg yn cael eu dehongli'n anghyson gan ysgolion ac awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd gennym yn dangos bod y Cod a'r Ddeddf yn ddiangen o gymhleth ac yn anodd eu deall. Os yw

Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru yn gweld y ddeddfwriaeth yn ‘ddeallusol heriol’, pa obaith sydd i bawb arall?

**66.** Rhaid i archwilio’r cysyniad o ‘ddarpariaeth gyffredinol’ fod yn ganolog i wella hygyrchedd y ddeddfwriaeth. Mae pwynt y Llywydd yn allweddol yma: ar hyn o bryd, nid yw ‘darpariaeth gyffredinol’ yn bodoli yn y Ddeddf ADY, nid yw’n bodoli yn y Cod ADY, ac felly ni ellir ei ddefnyddio i wrthod CDU i blentyn. Mae angen mwy o eglurder ar rieni ynghylch pa addysgu cynhwysol y gallant ddisgwyl i ysgolion prif ffrwd ei ddarparu. I ba raddau y dylai gwahaniaethu arferol ar draws ysgolion prif ffrwd roi cyfrif am anghenion dysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol? Ar ba bwynt y dylai’r gwahaniaethu hwnnw fod yn rhan o ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, i’w nodi mewn CDU statudol? Nid ydym yn diystyru cymhlethdod darn o waith fel hwn. Ond os yw Llywodraeth Cymru am gofleidio ‘darpariaeth gyffredinol’ fel rheswm dros wrthod CDU i blant, credwn fod gan blant a’u teuluoedd yr hawl i ddeall beth yw darpariaeth gyffredinol mewn gwirionedd.

**Recommendation 1.** Fel rhan o’i hadolygiad o’r Cod a’r Ddeddf ADY, dylai Llywodraeth Cymru adolygu eglurder a hygyrchedd y ddeddfwriaeth a’r canllawiau statudol. Dylai ffocws y gwaith hwnnw fod ar yr hyn a olygir, neu o leiaf a ddëellir yn gyffredin, fel ‘darpariaeth gyffredinol’ drwy archwilio i ba raddau y dylai addysgu arferol ar draws ysgolion prif ffrwd ddiwallu anghenion dysgu plant sydd ag anghenion ychwanegol isel i gymedrol, ac ar ba bwynt y dylai gwahaniaethu arferol fod yn rhan o’r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol.

**67.** Credwn nad yw’r model cyllido ADY yn gweithio, a’i fod yn cyfrannu’n uniongyrchol at y gostyngiad yn nifer y plant y nodir bod ganddynt ADY yn erbyn cefndir o lefelau uwch o anghenion ychwanegol nag erioed o’r blaen. Mae ysgolion yn dweud wrthym fod cost darpariaeth ADY yn fwy na’r cyllid a gânt, ac nad oes ganddynt ddigon o arian nac adnoddau i roi CDU i bob plentyn sydd ag ADY. Mae teuluoedd wedi dweud wrthym nad oes atebolrwydd cyllido mwyach, ac, yn wahanol i’r system AAA, nid yw cyllid ar gyfer ADY yn dilyn y disgybl mwyach.

**68.** Ond er gwaethaf ein hymdrechion gorau, rydym yn ansicr *pam* mae cyllid ADY wedi newid. O’r hyn y gallwn ei weld, nid oes dim yn y Cod na’r Ddeddf ADY sy’n effeithio’n uniongyrchol ar y trefniadau ar gyfer ariannu ysgolion. Ac rydym yn siomedig, er bod y Cod ADY yn gosod disgwyliad bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi cyfres o egwyddorion ar sut y byddant yn penderfynu a ddylai CDU fod yn gyfrifoldeb iddynt hwy yn hytrach na’r ysgol – penderfyniad hollbwysig – ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn nid yw pob awdurdod lleol wedi gwneud hynny.

Rydym yn croesawu dyddiad cau Llywodraeth Cymru, sef diwedd mis Mehefin 2024, i bob awdurdod lleol gyhoeddi eu cyfresi o egwyddorion, y gobeithiwn y byddant wedi'u bodloni erbyn cyhoeddi'r adroddiad hwn.

**69.** Mae adolygiad Ysgrifennydd y Cabinet yn amser da i bwyso a mesur sut mae cyllid ADY yn gweithio'n ymarferol, nodi unrhyw anghysondebau na ellir eu cyfiawnhau ar draws awdurdodau lleol, a sicrhau bod gan ysgolion y cyllid sydd ei angen arnynt i gefnogi plant sydd ag ADY.

**Recommendation 2.** Fel rhan o'i hadolygiad o'r Cod a'r Ddeddf ADY, dylai Llywodraeth Cymru adolygu sut y caiff darpariaeth ADY ei hariannu mewn ysgolion prif ffrwd. Dylai'r gwaith hwn gynnwys ystyried fformiwlâu ariannu awdurdodau lleol, cyfresi o egwyddorion, a threfniadau ariannu eraill i:

- sicrhau bod awdurdodau lleol yn trosglwyddo lefelau priodol o gyllid i ysgolion i gefnogi disgyblion sydd ag ADY;
- sicrhau bod y cydbwysedd rhwng darpariaeth a ariennir gan ysgolion a chan awdurdodau lleol fel y'i bwriadwyd yn y Cod a'r Ddeddf ADY;
- ymchwilio i weld a yw awdurdodau lleol wedi newid y ffordd y maent yn ariannu ADY o gymharu â sut y maent yn ariannu AAA o dan yr hen system, ac a yw hyn yn briodol;
- hyrwyddo tryloywder ynghylch sut y caiff ADY eu hariannu er budd ysgolion a theuluoedd; ac, yn bwysicaf oll
- sicrhau nad yw diffyg cyllid neu adnoddau yn rheswm dros wrthod CDU i blant.

## Cymorth gan gyrff iechyd

**70.** Mae gan fyrddau iechyd ddyletswyddau penodol o dan y Ddeddf ADY, gan gynnwys:

- ymateb i atgyfeiriadau gan awdurdodau lleol yn gofyn iddynt ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd wrth fynd i'r afael ag ADY plentyn neu berson ifanc (adran 20);
- ymateb o fewn 6 wythnos[83] i geisiadau am wybodaeth neu gymorth gan awdurdodau lleol (adran 65); a

[83] Legislation.gov.uk, 'Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021'

- dynodi rhywun i gyflawni rôl Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (adran 61). Rôl y Swyddog yw cysylltu â darparwyr addysg i gefnogi cydweithredu rhwng y sectorau iechyd ac addysg.

**71.** Fodd bynnag, mae ysgolion wedi dweud wrthym yn gyson eu bod yn cael trafferth cael mewnbwn gan gyrff iechyd. Yn ein hymweliadau ag ysgolion yn 2023, clywsom rywfaint o adborth cadarnhaol am ymgysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, ond cawsom wybod hefyd bod amseroedd aros hir am atgyfeiriadau ar gyfer arbenigwyr Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth, a diffyg capasiti seicolegwyr addysg. Mewn cyfres o grwpiau ffocws a chyfweliadau gyda thîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd y flwyddyn honno, dywedodd arweinwyr ysgolion ledled Cymru wrthym fod gweithwyr iechyd proffesiynol yn 'dawel' ac y gall fod yn heriol cael gweithwyr iechyd proffesiynol i fynychu adolygiadau. Dywedodd un aelod o staff:

> *"Rydym yn ysgol fawr iawn gydag ystod o anghenion cymhleth iawn, canolfan adnoddau arbenigol a dosbarth lloeren. Does dim unrhyw aelod o'r tîm iechyd wedi bod i hyd yn oed un cyfarfod."*[84]

**72.** Clywsom straeon tebyg yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion eleni. Ar y cyfan, teimlai ysgolion nad oeddent yn cael digon o gymorth gan gyrff iechyd, yn enwedig ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol isel i gymedrol neu blant nad ydynt wedi cael diagnosis. Cawsom wybod y gall byrddau iechyd fod yn anhyblyg, defnyddio tactegau oedi a bod ysgolion wedi gorfod dod yn hunangynhaliol wrth ddarparu cymorth iechyd meddwl i blant. Rhannodd un ysgol ei rhwystredigaeth bod yn rhaid gwneud atgyfeiriadau ysgolion am gymorth iechyd drwy eu hawdurdod lleol o dan y Ddeddf. Credant fod hyn yn achosi oedi. Roedd yr ysgol yn teimlo nad yw'n ymddangos bod rôl Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg yn helpu i wneud y broses honno'n fwy effeithlon.[85]

**73.** Roedd tystiolaeth ysgrifenedig gan yr Undeb Addysg Cenedlaethol yn adleisio'r safbwyntiau a glywn yn uniongyrchol gan ysgolion. Cawsom wybod bod anghenion dysgu rhai pobl ifanc yn cael eu heffeithio'n aruthrol gan anghenion iechyd, ac na all ysgolion eu cefnogi ar eu pen eu hunain. Maent yn dadlau ei bod yn ddryslyd yng Nghymru, yn wahanol i Loegr, nad oes unrhyw ddyletswyddau sylweddol ar gyrff iechyd, er bod gan y GIG adnoddau sylweddol, o'i gymharu ag

---

[84] Senedd Cymru, 'Ymgysylltu â Dinasyddion: Nodyn cryno', Ebrill 2023, tudalennau 4-5
[85] Senedd Cymru, 'Gweithredu diwygiadau addysg: trydydd gwiriad: Crynodeb o ganfyddiadau ymweliadau ysgol', haf 2024, tudalennau 5-6

ysgolion a cholegau. Roeddent yn argymell gosod dyletswyddau yn y Ddeddf ADY ar gyrff iechyd i gefnogi CDUau. [86]

**74.** Nododd Canolfan Blant Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe hefyd straen yn eu perthynas ag ysgolion o dan y Ddeddf. Dywedodd y byddai'n gwerthfawrogi mwy o gydweithredu ag awdurdodau lleol, ond bod y galw am asesiadau gan y bwrdd iechyd yn cynyddu tra bod incwm ariannol awdurdodau lleol o dan AAA yn lleihau.[87] Roedd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd yn cytuno, gan ddweud wrthym yn 2022 fod y galwadau ar wasanaethau therapi lleferydd ac iaith wedi cynyddu o dan y Ddeddf. Dywedodd hefyd fod y Ddeddf ADY wedi lleihau effeithlonrwydd cyfathrebu rhwng therapyddion, ysgolion ac awdurdodau lleol.[88]

**75.** Yn dilyn ein hail wiriad yn 2023, gwnaethom ysgrifennu at CLlLC a Chonffederasiwn y GIG i ofyn am eu barn ar agweddau amrywiol ar gydweithio aml-asiantaeth. Mewn ymateb, nododd Conffederasiwn y GIG fod hanes hir a chadarnhaol wedi bod o gydweithio rhwng ystod o wasanaethau iechyd y GIG, a bod gweithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg wedi dod ag egni o'r newydd ac ymrwymiad ar y cyd i wella cydweithredu ymhellach. Nodwyd bod pedwar Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg yn eu swyddi ar gyfer y saith bwrdd iechyd ledled Cymru, a bod adborth wedi tynnu sylw at werth y Swyddog fel pwynt cyswllt a chymorth. Fodd bynnag, nododd hefyd fod galw cynyddol am bresenoldeb mewn cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gefnogi'r gwaith o nodi ADY, sydd, er yn werthfawr, yn eu barn hwy yn gosod galw ychwanegol ar wasanaethau'r GIG sydd dan bwysau. Eglurodd hefyd nad oes gan ysgolion hawl o dan y Ddeddf i ofyn am gymorth a gwybodaeth gan fyrddau iechyd, a bod yn rhaid i geisiadau ddod gan awdurdodau lleol.[89]

**76.** Yn ei hymateb i ni, cytunodd CLlLC â Chonffederasiwn y GIG, i'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol, fod "rôl DECLO wedi gwella cyfathrebu a chydweithio rhwng awdurdodau a'r Byrddau Iechyd Lleol". Fodd bynnag, dywedodd CLlLC hefyd fod rhai awdurdodau lleol yn teimlo bod y broses o roi'r diwygiadau ADY ar waith yn arafach yn y sector iechyd nag ym myd addysg. Roedd yn awgrymu bod dyletswyddau cyrff iechyd o dan y Ddeddf ADY yn eilaidd i'w prif ysgogwyr

[86] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 54 Undeb Addysg cenedlaethol Cymru (NEU) (Saesneg yn unig)
[87] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 43 Canolfan Blant Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (Saesneg yn unig)
[88] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 4 Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd Cymru a Fforwm Ymgynghorol Therapi Iaith a Lleferydd Cymru
[89] Conffederasiwn y GIG,'Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg'

deddfwriaethol, a nodwyd presenoldeb anghyson gweithwyr iechyd proffesiynol mewn cyfarfodydd, gwahaniaethau mewn dealltwriaeth o lefel y mewnbwn y dylai cyrff iechyd ei ddarparu mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion ADY llai cymhleth, ac oedi wrth gael gwybodaeth ac asesiadau iechyd.[90] Amlygodd Estyn bryderon tebyg gan awdurdodau lleol ac ysgolion yn ei adroddiad yn 2023 ar y system ADY, gan nodi bod cydweithwyr yn y sector iechyd yn cael yr "anhawster mwyaf yn darparu cyngor a gwybodaeth o fewn y graddfeydd amser penodol", ac "roedd yr ymrwymiad a wna awdurdodau iechyd i ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn rhy amrywiol."[91]

**77.** Yn ystod y gwaith craffu yn 2022 a 2023, pwysleisiodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd wrthym na ddylai ysgolion aros am fewnbwn gweithwyr iechyd proffesiynol i sicrhau bod anghenion disgyblion yn cael eu diwallu.[92] Eleni, nododd Ysgrifennydd y Cabinet ganfyddiadau Estyn ynghylch anawsterau o ran sicrhau mewnbwn gweithwyr iechyd proffesiynol yn ei phapur tystiolaeth ym mis Ebrill 2024. Fodd bynnag, fel ei rhagflaenydd, pwysleisiodd "n[a] ddylai amseroedd aros hir ar gyfer rhai asesiadau a diagnosis o yn y GIG olygu bod plant a phobl ifanc ag ADY yn cael eu gadael heb CDUau."[93] Yn ystod gwaith craffu ar lafar, cydnabu fod cydweithredu rhwng y sectorau addysg ac iechyd yn her fawr i fynd i'r afael â hi, ac ymrwymodd i fynd i'r afael â phwyntiau o eglurhad ynghylch y ddeddfwriaeth yn ymwneud â gwaith aml-asiantaeth.[94]

**78.** Mewn gohebiaeth ddilynol, nododd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn hyderus fod penderfyniad pum bwrdd iechyd i greu penodiadau Swyddogion Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg ar y cyd yn cydymffurfio'n gyfreithiol. Fodd bynnag, roedd yn "siarad ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol i drafod y ffordd fwyaf effeithiol i sicrhau darpariaeth lawn ar draws pob Bwrdd Iechyd." Ychwanegodd eu bod yn "gweithio gyda'r pedwar SACDA i ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol newydd i fonitro cydymffurfiaeth y Byrddau Iechyd Lleol â'u dyletswyddau o dan y Ddeddf ALNET."[95]

---

[90] CLILC, 'Rhoi diwygiadau addysg ar waith (ail wiriad)', 26 Medi 2023
[91] Estyn, 'Y system anghenion dysgu ychwanegol: Cynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol wrth gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol', Medi 2023, tudalen 10
[92] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 14 Gorffennaf 2022: Cofnod y Trafodion, paragraff 90; Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10 Mai 2023: Cofnod y Trafodion, paragraff 124
[93] Llywodraeth Cymru, 'Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru: Ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i weithredu diwygiadau addysg', Ebrill 2024, tudalennau 7-8
[94] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 8 Mai 2024: Cofnod y Trafodion, paragraffau 85-91
[95] 'Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', 18 Mehefin 2024, tudalennau 4-5

## Ein barn ni

**79.** Mae cydweithredu rhwng gweithwyr proffesiynol yn y sectorau iechyd ac addysg yn fater hirsefydlog sy'n rhagddyddio gweithredu'r Cod a'r Ddeddf ADY. Rydym yn trafod y materion ehangach yn fanylach yn ein hadroddiad ar fynediad pobl anabl at ofal plant ac addysg. Rydym yn canolbwyntio yma ar effaith y diwygiadau ADY yn benodol ar waith aml-asiantaeth.

**80.** Rydym yn falch bod y Ddeddf wedi sicrhau rhywfaint o gydweithredu gwell rhwng y sectorau addysg ac iechyd drwy rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg newydd. Ymddengys bod deiliaid y swyddi newydd o fudd i'r sectorau addysg ac iechyd fel ei gilydd drwy weithredu fel canolwr rhyngddynt. Disgwyliwn y bydd y manteision hyn yn parhau i gronni wrth i ddeiliaid y swyddi barhau i feithrin perthnasoedd ar draws y ddau sector. Mae unrhyw adborth negyddol yr ydym wedi'i gael am rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg wedi canolbwyntio ar gapasiti: yn y pen draw, mae bob amser mwy y gallai'r Swyddogion ei wneud i gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion, sy'n cael trafferth yn gyffredinol i gael y mewnbwn gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd ei angen arnynt.

**81.** O fewn y cyd-destun hwnnw, nid ydym yn glir pam nad yw pob bwrdd iechyd wedi penodi ei Swyddog ei hun. Efallai nad yw'r penderfyniad i rannu penodiadau ar draws byrddau iechyd yn anghyfreithlon, ond ymddengys ei fod yn anghyson ag ysbryd y ddeddfwriaeth a bwriad polisi gwreiddiol Llywodraeth Cymru. Mae olion traed byrddau iechyd yn fawr, fel arfer yn pontio sawl awdurdod lleol. Nid ydym yn credu ei bod yn ormod gofyn am un aelod penodol o staff i gydlynu gwaith gydag ysgolion ac awdurdodau lleol ar draws pob bwrdd iechyd i gefnogi gweithwyr addysg proffesiynol i ddiwallu anghenion plant sydd ag ADY.

**Recommendation 3.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn penodi ei Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg pwrpasol ei hun cyn gynted ag y bo'n ymarferol gwneud hynny.

**82.** Mae ysgolion yn amlwg yn ei chael hi'n anodd cael y mewnbwn sydd ei angen arnynt gan weithwyr meddygol proffesiynol. Rydym yn cydnabod y straen aruthrol ar gapasiti o fewn y gwasanaeth iechyd (fel yn y sector addysg), nad yw'n ffafriol i waith aml-asiantaeth effeithiol.

**83.** Ni fydd angen unrhyw fewnbwn gan y sector iechyd ar ysgolion i ddatblygu CDUau ar gyfer llawer o blant, efallai hyd yn oed y rhan fwyaf. Ond bydd eu hangen ar gyfer rhai. Mae CDUau yn nodi Darpariaeth *Ddysgu* Ychwanegol, ond

yn aml holl ddiben y ddarpariaeth honno yw diwallu anghenion gofal iechyd, er eu bod yn effeithio'n uniongyrchol ar y capasiti i ddysgu ac o fewn lleoliad addysg. Felly, nid ydym yn derbyn y ddadl y dylai ysgolion, ar gyfer achosion arbennig o gymhleth, fwrw ymlaen â'r gwaith wrth iddynt aros i weithwyr iechyd proffesiynol gyfrannu at CDUau. Er mwyn pennu darpariaeth addysgol briodol ar gyfer llawer o blant, bydd angen arbenigedd a phrofiad penodol gan weithwyr iechyd proffesiynol ymroddedig. Gallai cael y ddarpariaeth yn anghywir arwain at ganlyniadau difrifol: colli dysgu, llesiant gwael plant, straen i aelodau'r teulu, heb sôn am berthnasoedd yn methu rhwng teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Rydym yn cytuno ag ysgolion na ellir yn rhesymol ddisgwyl i staff addysgu a staff cymorth addysgu cyffredinol feddu ar yr arbenigedd angenrheidiol i wneud y penderfyniadau mwyaf cymhleth ynghylch darpariaeth ddysgu ychwanegol priodol heb fewnbwn iechyd.

**84.** Nid yw ein tystiolaeth yn ddigon cyson inni ddod i gasgliadau clir ynghylch a yw'r Cod a'r Ddeddf ADY yn benodol wedi helpu neu rwystro cydweithredu rhwng y sectorau iechyd ac addysg. Ond mae rhai pryderon penodol y mae angen ymchwilio iddynt, megis rhwystredigaeth ysgolion nad yw byrddau iechyd yn ymateb i awdurdodau lleol mor gyflym ag y dylent, a bod yn rhaid i atgyfeiriadau at fyrddau iechyd o dan y Ddeddf gael eu gwneud gan awdurdodau lleol, yn hytrach na gan yr ysgolion eu hunain. Ochr yn ochr â'r argymhelliad cyffredinol ynghylch cydweithredu yn y sectorau iechyd/addysg a wnawn yn ein hadroddiad cyfochrog ar fynediad plant a phobl ifanc anabl at ofal plant ac addysg, yma gofynnwn i Lywodraeth Cymru ymchwilio'n fanylach i effaith y Cod a'r Ddeddf ADY yn benodol ar gydweithredu rhwng y sectorau iechyd ac addysg.

**Recommendation 4.** Fel rhan o'i hadolygiad o'r Cod a'r Ddeddf ADY, dylai Llywodraeth Cymru archwilio effaith y Cod a'r Ddeddf yn benodol ar gydweithredu rhwng y sectorau iechyd ac addysg. Dylai'r adolygiad hwnnw gynnwys ystyriaeth o'r canlynol:

- a yw cyrff iechyd yn ymateb yn gyson i atgyfeiriadau a cheisiadau am wybodaeth gan awdurdodau lleol mewn modd amserol (ac os nad ydynt, pam);
- a yw'r amserlenni ar gyfer ymatebion byrddau iechyd i awdurdodau lleol y darperir ar eu cyfer yn y Ddeddf yn briodol;
- a yw'r gofyniad am atgyfeiriadau/ceisiadau am wybodaeth gan awdurdodau lleol – yn hytrach nag ysgolion – yn briodol, ac a ellid

gwneud unrhyw newidiadau i wneud y cydweithredu hwnnw'n fwy effeithlon; ac

- a oes unrhyw dagfeydd eraill yn y Cod a'r Ddeddf ADY sy'n rhwystro cydweithredu rhwng iechyd ac addysg.

## Cyflogau a thelerau ac amodau staff ADY

**85.** Wrth i ysgolion addasu i ofynion y Cod a'r Ddeddf ADY, clywsom fod rhai arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion yn defnyddio dulliau gwahanol – a chreadigol yn aml – i ddarparu'r capasiti sydd ei angen ar eu timau ADY. Clywsom gan yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy eleni, ochr yn ochr â Chydlynydd ADY penodedig, sy'n ymddangos yn gynyddol nad yw'n rôl addysgu, fod ysgolion wedi penodi dirprwy gydlynwyr addysgu ADY, cynorthwywyr addysgu ADY arbenigol, a hyd yn oed wedi defnyddio staff bugeiliol i ddarparu cymorth anghenion ychwanegol. Fodd bynnag, teimlai nifer o'r ysgolion y gwnaethom siarad â hwy nad oedd y graddfeydd cyflog, y telerau ac amodau, a'r disgrifiadau swydd presennol ar gyfer staff addysgu a staff cymorth sy'n gweithio gyda phlant sydd ag ADY yn ddigon hyblyg i gefnogi anghenion ysgolion.[96]

**86.** Mae ymateb ysgrifenedig NASUWT i'r ymgynghoriad hefyd yn codi pryderon ynghylch telerau ac amodau staff sy'n gweithio i gefnogi disgyblion sydd ag ADY. Ymatebodd 450 o athrawon i'r arolwg sydyn, a ganfu nad oedd bron i 85 y cant o athrawon ADY yn teimlo eu bod yn cael eu talu ar lefel briodol am eu sgiliau a'u profiad. Mae gan dros 42 y cant o Gydlynwyr ADY fwy nag 21 awr o ymrwymiad addysgu yr wythnos. Yn gyffredinol, dywedodd 97 y cant nad oedd ganddynt ddigon o amser i gyflawni eu dyletswyddau.[97]

**87.** Ar ran staff cymorth ysgolion, adroddodd UNSAIN nad yw cynorthwywyr addysgu yn teimlo eu bod yn gymwys i gyflwyno'r system ADY oherwydd nad ydynt wedi elwa o'r hyfforddiant angenrheidiol. At hynny, gofynnir iddynt yn aml oruchwylio nifer o ddisgyblion â CDUau, a byddant yn gwneud hynny er nad yw'n rhan o'u disgrifiad swydd.[98] Pwysleisiodd pennaeth Ysgol y Deri wrthym, yn y pen draw, fod cyflogau cynorthwywyr addysgu yn rhy isel, ac y byddai talu mwy iddynt yn mynd yn bell i drwsio'r argyfwng recriwtio.[99]

[96] Senedd Cymru, 'Gweithredu diwygiadau addysg: trydydd gwiriad: Crynodeb o ganfyddiadau ymweliadau ysgol', haf 2024, tudalennau 2-3
[97] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 42 NASUWT Cymru (Saesneg yn unig)
[98] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 46 UNSAIN (Saesneg yn unig)
[99] Senedd Cymru, 'Gweithredu diwygiadau addysg: trydydd gwiriad: Crynodeb o ganfyddiadau ymweliadau ysgol', haf 2024, tudalen 12

**88.** Ym mis Mai 2022, argymhellodd Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried dyraniad digyswllt a thâl Cydlynwyr ADY ysgolion.[100] Cyhoeddodd y grŵp adroddiad ym mis Chwefror 2024, ac argymhellodd y dylai'r Cydlynydd ADY fod yn rhan o uwch-dimau arweinyddiaeth ysgolion a chael cydnabyddiaeth ariannol yn unol â hynny. Nododd yr adroddiad hefyd fod cyfyngiadau ariannol ar ysgolion wedi effeithio'n anghymesur ar gynorthwywyr addysgu, y gellir disgwyl iddynt gyflawni ymyriadau a bwydo i mewn i CDUau pan nad ydynt wedi'u hyfforddi neu eu talu i wneud hynny.[101]

**89.** Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd y byddai grŵp gorchwyl a gorffen ar wahân yn cynnal adolygiad o gyflog ac amodau cynorthwywyr addysgu.[102] Agwedd allweddol ar yr adolygiad yw datblygu disgrifiad swydd safonol ar gyfer cynorthwywyr addysgu. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

**90.** Yn ystod gwaith craffu ar lafar, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wrthym ei bod yn bwysig bod Cydlynwyr ADY yn aelodau o'r uwch-dîm rheoli, ac rydym wedi ailadrodd hynny wrth ysgolion. Dywedodd wrthym y byddai Llywodraeth Cymru yn edrych ar beth arall y gellir ei wneud gyda chynorthwywyr addysgu o ran eu dysgu proffesiynol, ac ati, ond ychwanegodd mai mater i lywodraeth leol yw eu cyflog a'u hamodau.[103]

## Ein barn ni

**91.** Rydym wedi nodi tuedd o ysgolion yn penodi arbenigwyr ADY ychwanegol i gefnogi'r Cydlynydd ADY. Mewn rhai achosion, mae gan ysgolion dimau cyfan sy'n gweithio gyda'i gilydd i nodi a chefnogi plant sydd ag anghenion ychwanegol a'u teuluoedd. Ni wyddom a yw'r tueddiadau hyn yn gynrychioliadol o ysgolion ledled Cymru gyfan. Dychmygwn, i lawer o ysgolion, fod cyfyngiadau ariannol yn unig yn golygu na allent ailgyfeirio staff presennol i gefnogi'r Cydlynydd ADY, heb sôn am benodi staff ychwanegol. Ond rydym yn gwybod bod y Cod a'r Ddeddf ADY wedi creu llawer iawn o waith ychwanegol i ysgolion, fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, ac ni fyddai'n syndod o gwbl pe bai llawer o ysgolion yn defnyddio capasiti staffio ADY ychwanegol i ymdopi â'r llwyth gwaith ychwanegol

[100] Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru, 'Pedwerydd adroddiad – 2022', Mai 2022, tudalen xvi
[101] Grŵp gorchwyl a gorffen Cydlynwyr ADY , 'Grŵp gorchwyl a gorffen Cydlynwyr ADY: adroddiad i Weinidog y Gymraeg a Addysg', 20 Chwefror 2024
[101] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 8 Mai 2024: Cofnod y Trafodion, paragraff 40
[102] Llywodraeth Cymru, 'Datganiad ysgrifenedig: Diweddariad ar weithgareddau i gefnogi'r rhai sy'n cynorthwyo addysgu', 17 Chwefror 2022
[103] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 8 Mai 2024: Cofnod y Trafodion, paragraffau 40-41 a 70

hwnnw. Mae creadigrwydd, hyblygrwydd a gwytnwch staff ar draws yr ysgolion hyn wedi creu argraff arnom, gyda llawer ohonynt wedi ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol neu hyd yn oed rolau newydd sbon, yn aml heb fawr o gyflog ychwanegol, os o gwbl.

**92.** Yn y pen draw, dylai ysgolion gael yr ysgogiadau sydd eu hangen arnynt i benodi timau staffio ADY sy'n addas ar eu cyfer. Mae angen disgrifiadau swydd a graddfeydd cyflog priodol arnynt ar gyfer ystod o staff ADY, staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu, sy'n cydnabod yr heriau a'r cymhlethdod o weithio gyda phlant sydd ag ADY a'u teuluoedd.

**93.** Mae grŵp gorchwyl a gorffen y Cydlynwyr ADY wedi gwneud nifer o argymhellion sy'n ymwneud â'r aelod o staff addysgu sydd â'r prif gyfrifoldeb dros ADY. Ond nid yw'n ystyried staff addysgu sy'n gweithredu fel dirprwy gydlynwyr ADY/cydlynwyr ADY cynorthwyol i gefnogi'r unigolyn sydd yn y rôl Cydlynydd ADY statudol. Mae'r aelodau hyn o staff yn cyflawni rôl hollbwysig, ond nid yw rhai ysgolion yn teimlo bod y canllawiau presennol ar delerau ac amodau staff addysgu yn ddigon hyblyg i ddarparu ar eu cyfer. Gallai hyn ddod yn fwy amlwg os bydd rhai o'r newidiadau i delerau ac amodau'r Cydlynydd ADY a argymhellwyd gan grŵp gorchwyl a gorffen y Cydlynwyr ADY yn cael eu datblygu.

**Recommendation 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r grŵp gorchwyl a gorffen Cydlynwyr ADY wneud gwaith pellach i archwilio cyflog a thelerau ac amodau staff addysgu sy'n gweithio'n gyfan gwbl neu'n rhannol fel dirprwy gydlynwyr ADY/cydlynwyr ADY cynorthwyol. Dylai'r grŵp gorchwyl a gorffen ystyried yr hyfforddiant y dylai unigolion sydd mewn swyddi o'r fath ei gael, y tasgau a'r cyfrifoldebau allweddol y gallent ddisgwyl eu cael, ac ystyriaethau y dylai cyrff llywodraethu eu hystyried wrth bennu eu cyflog.

**94.** Mae llawer o ysgolion hefyd yn galw ar aelodau o'u staff cymorth i ddarparu capasiti ychwanegol i'r Cydlynydd ADY. Yn ein hadroddiad cyfochrog ar fynediad plant anabl at ofal plant ac addysg, rydym yn trafod rôl staff cymorth sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant ag anableddau. Rydym yn dod i'r casgliad yn yr adroddiad hwnnw fod cynorthwywyr addysgu yn hollbwysig i gyflwyno system addysg gynhwysol. Fodd bynnag, yn ogystal â darparu cymorth addysgu *uniongyrchol* hanfodol, mae'n amlwg bod llawer o ysgolion bellach yn dibynnu ar gynorthwywyr addysgu i gyflawni tasgau ADY mwy arbenigol hefyd, fel cyfrannu at ddatblygu CDUau, neu ymgysylltu â theuluoedd yn eu cylch. Mae rhai hyd yn oed yn gweithio'n gyfan gwbl neu'n rhannol y tu allan i'r dosbarth fel rhan o dîm canolog o arbenigwyr ADY. Mae'r rhain yn rolau newydd i lawer o gynorthwywyr addysgu, ac, yn union fel y mae rolau a chyfrifoldebau Cydlynydd ADY yn wahanol

i rai athro dosbarth, mae bod yn aelod o staff cymorth ADY yn wahanol i fod yn gweithio fel cynorthwyydd addysgu yn y dosbarth - neu hyd yn oed gynorthwyydd addysgu un-i-un. I lawer o ysgolion, bydd staff sy'n cyflawni'r rolau newydd hyn yn hanfodol i weithrediad llwyddiannus y Ddeddf ADY yn eu lleoliad.

**95.** Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi yn gyntaf ganfyddiadau'r adolygiad o delerau ac amodau cynorthwywyr addysgu, a ddechreuodd dros ddwy flynedd yn ôl, a fydd, gobeithio, yn cysoni'r cyflog a'r disgrifiadau swydd ar gyfer cynorthwywyr addysgu yn y dosbarth neu gynorthwywyr addysgu un-i-un.

**Recommendation 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau ac argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen cynorthwywyr addysgu a sefydlwyd gyntaf ym mis Chwefror 2022.

**96.** Credwn hefyd fod angen gwneud gwaith pellach i ddatblygu disgrifiad swydd priodol a disgwyliadau cyflog ar gyfer y cynorthwywyr addysgu arbenigol hynny sy'n gweithio ochr yn ochr â'r Cydlynydd ADY i gyfrannu at CDUau plant, neu fel rhan o dîm canolog o arbenigwyr ADY.

**Recommendation 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i'r grŵp gorchwyl a gorffen cynorthwywyr addysgu wneud gwaith pellach i archwilio cyflog a thelerau ac amodau cynorthwywyr addysgu sy'n gweithio'n gyfan gwbl neu'n rhannol gyda'r Cydlynydd ADY fel rhan o dîm ADY canolog. Dylai'r grŵp gorchwyl a gorffen ystyried yr hyfforddiant y dylai unigolion sydd mewn swyddi o'r fath ei gael, y tasgau a'r cyfrifoldebau allweddol y gallent ddisgwyl eu cael, ac ystyriaethau y dylai cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol eu hystyried o ran eu cyflog.

# 3. Y Cwricwlwm i Gymru

## Sgiliau neu wybodaeth, rhagnodi neu hyblygrwydd

**97.** Un o ddibenion allweddol y Cwricwlwm i Gymru oedd rhoi'r hyblygrwydd i ysgolion ddylunio eu cwricwla eu hunain (o fewn dull cenedlaethol), a symud i ffwrdd o'r hen "gwricwlwm sy'n gul, yn anhyblyg ac yn orlawn" gyda'i "lefel uchel o ragnodi".[104]

**98.** Rydym wedi clywed adborth cadarnhaol cyson am y rhyddid a gynigir i ysgolion yn sgil y Cwricwlwm i Gymru gan staff yr ysgol yr ydym wedi siarad â hwy. Mae ysgolion wedi adrodd bod athrawon yn teimlo'n rhydd, a bod addysg disgyblion yn fwy cyfannol ac wedi'i thargedu at yr hyn sy'n bwysig iddynt hwy a'u cymuned leol. Rydym wedi clywed adborth cadarnhaol am sut mae'r Cwricwlwm i Gymru yn gwerthfawrogi sgiliau a phrofiadau, y mae ysgolion wedi dweud wrthym eu bod yn amhrisiadwy wrth helpu plant i ddysgu sut i ddysgu.[105]

**99.** Fodd bynnag, drwy gydol ein gwaith rydym hefyd wedi nodi tensiwn sylfaenol rhwng hyblygrwydd a chreadigrwydd cynhenid y Cwricwlwm i Gymru, a'r angen am gysondeb addysgol ledled Cymru a datblygu cyfres safonol o gymwysterau ar gyfer dysgwyr. Mae datblygiad y cymwysterau a fydd yn asesu dysgu o dan y Cwricwlwm i Gymru erbyn carfan Blwyddyn 10 yn 2025/26 a Blwyddyn 11 yn 2026/27 bellach yn y cyfnod manwl iawn. Yn dilyn ymgynghoriadau Cymwysterau Cymru ar ba gymwysterau fydd ar gael a'u gofynion dylunio,[106] mae'r corff dyfarnu CBAC wedi cyhoeddi amlinelliadau o'r cymwysterau ac wedi cyflwyno manylebau drafft i'w cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru.[107]

**100.** Mor gynnar â 2022, roedd ysgolion yn dweud wrthym ei bod yn debygol y bydd amrywiaeth sylweddol rhwng cynigion cwricwlwm ysgolion. Wrth inni gynnal ymweliadau yn 2023 ac eleni, roedd ysgolion yn mynegi pryderon ynghylch sut y byddai'r Cwricwlwm i Gymru yn gweithio yng Nghyfnod Allweddol

[104] Llywodraeth Cymru, 'Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021: Memorandwm Esboniadol', Ebrill 2021, tudalen 10
[105] Senedd Cymru, 'Gweithredu diwygiadau addysg: trydydd gwiriad: Crynodeb o ganfyddiadau ymweliadau ysgol', haf 2024, tudalen 8
[106] Cymwysterau Cymru, 'Penderfyniadau TGAU Gwneud-i-Gymru'
[107] CBAC, 'Dod â chymwysterau yn fyw'

4, a sut y gallai ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn barod ar gyfer TGAU cenedlaethol o dan gwricwlwm sydd mor gynhenid hyblyg.[108]

**101.** Mynegodd NASUWT a chyfres o sefydliadau eraill bryderon ynghylch cysondeb dysgu i ddisgyblion ledled Cymru. Dywedodd Impact School Improvement Ltd fod lefel yr amrywiad o ran cysondeb a thegwch cyfleoedd dysgu y bygythiad mwyaf i safonau dysgu yng Nghymru ers sawl degawd.[109] Galwodd Canolfan Adolygu a Dadansoddi Polisi Addysg Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yr amrywiad yng ngweithrediad y Cwricwlwm i Gymru yn 'bryderus', ac roedd yn argymell cwricwlwm craidd yn cynnwys gwybodaeth bwerus fel y'i gelwir. Aeth ymlaen i ddweud:

> *"The balance between prescription and teacher agency is finely trodden, and the flexibility afforded by broad expectations for learning both a gift and a burden."*[110]

**102.** Cododd tystiolaeth ysgrifenedig gan yr Undeb Addysg Cenedlaethol a NASUWT bryderon ynghylch cymwysterau TGAU yn benodol. Dywedodd NASUWT mai methiant o ran gweithrediad cyfan y Cwricwlwm i Gymru yw bod y cwricwlwm yn cael ei roi ar waith yn gyntaf heb unrhyw syniad sut y byddai dysgwyr yn ennill cymwysterau ohono.[111] Gwnaeth eraill bwyntiau tebyg.[112] Mae hyn yn groes i farn y rheoleiddiwr, Cymwysterau Cymru, y dylai'r cwricwlwm ddiffinio cymwysterau, nid y ffordd arall.[113]

**103.** Cafodd y tensiynau hyn sylw sylweddol yn dilyn perfformiad siomedig Cymru ym mhrofion PISA 2022.[114] Mewn adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024 gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn myfyrio ar berfformiad Cymru, mae'r awdur Luke Sibieta yn dadlau bod gostyngiadau mewn safonau ysgolion wedi digwydd ym mron pob gwlad sydd wedi mabwysiadu cwricwla o'r fath sy'n seiliedig ar sgiliau. Daw i'r casgliad y dylai'r Cwricwlwm i Gymru roi mwy o bwyslais ar wybodaeth benodol nag y mae'n ei wneud naw. Dywedodd:

[108] Senedd Cymru, 'Gweithredu diwygiadau addysg: trydydd gwiriad: Crynodeb o ganfyddiadau ymweliadau ysgol', haf 2024, tudalen 9
[109] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 42 NASUWT Cymru (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 16 Impact School Improvement Ltd (Saesneg yn unig); IER 17 Tystiolaeth ysgrifenedig, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru ar ran Cynghrair Dysgu Byd-eang Cymru (Saesneg yn unig)
[110] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 22 CEPRA UWTSD (Saesneg yn unig)
[111] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 54 Undeb Addysgol Cenedlaethol Cymru (NEU) (Saesneg yn unig); Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 42 NASUWT Cymru (Saesneg yn unig)
[112] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 22 CEPRA UWTSD; Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 47 Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig (Saesneg yn unig);
[113] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 6 Rhagfyr 2018: Cofnod y Trafodion, paragraff 15
[114] Prifysgol Rhydychen, 'PISA 2022: Adroddiad Cenedlaethol Cymru', Rhagfyr 2023

> *"The reform to GCSEs should be delayed to give proper time to consider how its aims and the evidence base fit with addressing poor performance and wide inequalities."*[115]

**104.** Mewn sesiwn tystiolaeth lafar, dywedodd Estyn wrthym ei bod yn cytuno bod y Cwricwlwm i Gymru weithiau wedi tynnu'r sylw oddi wrth arbenigeddau pwnc i ddull sy'n ymwneud yn fwy â sgiliau. Fodd bynnag, aeth y Prif Weithredwr ymlaen i egluro:

> *"… it isn't a skills versus knowledge argument, it's both. And I think what Government is realising is that there's an evolving process as the curriculum develops, and that some schools, the ones that are struggling with some of the standards, have focused, probably, overly on the what they're teaching—the content, the syllabus, if you like—at the expense of the teaching and learning, at the expense of assessment, and at the expense of clear progression routes and understanding what the progression should be."*[116]

**105.** Ym mhapur tystiolaeth diweddar Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i'r Pwyllgor, pwysleisiodd fod y cwricwlwm wedi'i gynllunio i godi safonau, gan ganolbwyntio ar y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen wrth iddynt symud ymlaen. Mae'r papur yn cyfeirio at ganllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar Ddysgu 14-16, y mae'r ymgynghoriad ar eu cyfer wedi dod i ben yn ddiweddar.[117] Dywedodd mai diben y canllawiau yw helpu i sicrhau tegwch a chysondeb yn y cwricwlwm a brofir ledled Cymru, gyda phob ysgol yn gwerthfawrogi'r un pethau sy'n cyfrannu at gynnydd a dilyniant dysgwr.[118]

**106.** Pan ofynnwyd iddi sut y byddai arholiadau'n gweithio ochr yn ochr â'r hyblygrwydd sy'n gynhenid yn y Cwricwlwm i Gymru, dywedodd wrthym:

> *"Qualifications Wales have developed a set of proposals in that space, and there'll be new qualifications coming online. It is important that we have the new qualifications align with the learning that children and young people have done, through*

[115] Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 'Major challenges for education in Wales (Saesneg yn unig)', Mawrth2024, tudalennau 13-16
[116] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 21 Chwefror 2024: Cofnod y Trafodion, paragraff 83
[117] Llywodraeth Cymru,'Dysgu 14 i 16 o dan Gwricwlwm i Gymru', diweddarwyd ddiwethaf ar 8 Mai 2024
[118] Llywodraeth Cymru, 'Papur Tystiolaeth Llywodraeth Cymru – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 10 Mai 2023', 27 Ebrill 2023, tudalennau 17-20.

*the new curriculum, and there's been a huge amount of work in taking that forward."*[119]

**107.** Pan wnaethom ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg am ei barn ar adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn benodol, dywedodd ei bod yn anghytuno â chasgliad yr adroddiad nad yw gwybodaeth yn allweddol i'r cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, ymrwymodd i ffurfio grŵp cynghori arbenigol, gan gynnwys Luke Sibieta, i ddarparu cyngor, her a chraffu i'w hun a swyddogion.[120]

## Ein barn ni

**108.** Rydym yn croesawu'r hyblygrwydd a gynigir i ysgolion gan y Cwricwlwm i Gymru. Rydym wedi clywed yn uniongyrchol gan lywodraethwyr ysgol, arweinwyr a staff eu bod yn gwerthfawrogi'r rhyddid sydd ganddynt nawr i ddatblygu cwricwlwm sy'n briodol i'w hysgol a'u cymuned, ac i ganolbwyntio ar ddysgwyr unigol yn hytrach na disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran a bennwyd ymlaen llaw. Fodd bynnag, ni ddylai'r annibyniaeth a'r hyblygrwydd ychwanegol hyn arwain ysgolion at arwahanrwydd. Mae gwaith clwstwr – o dan ba bynnag drefniadau ffurfiol neu anffurfiol sy'n gweithio orau i'r ysgolion unigol – yn hollbwysig er mwyn lledaenu arfer gorau a sicrhau nad yw ysgolion yn gweithio mewn seilos. Gall eu cwricwla amrywio o dan y Cwricwlwm i Gymru, ond mae'r heriau y mae ysgolion yn eu hwynebu – a'r ffyrdd o oresgyn yr heriau hynny – mor gyson ag y buont erioed.

**109.** Beth bynnag yw ffurf cwricwla ysgolion unigol, rydym yn rhannu barn Ysgrifennydd y Cabinet bod yn rhaid i'r Cwricwlwm i Gymru godi safonau addysgol a lleihau anghydraddoldebau addysgol. Yn yr un modd, rydym yn rhannu pryder Luke Sibieta fod cwricwla cenedlaethol sy'n dadflaenoriaethu gwybodaeth yn debygol o fethu yn y ddau achos. Ni chredwn fod y ddwy farn hyn yn anghydnaws. Fel Ysgrifennydd y Cabinet ac Estyn, rydym yn disgwyl i'r Cwricwlwm i Gymru fod yn llawn gwybodaeth *a* sgiliau.

**110.** Yn y bôn, mae'n rhy gynnar i ddod i unrhyw gasgliadau ynghylch effaith y Cwricwlwm i Gymru ar gyrhaeddiad addysgol. Ni fydd y disgyblion cyntaf hyd yn oed yn sefyll y TGAU diwygiedig tan 2027, ac ni fydd y garfan gyntaf oll o ddysgwyr yn gadael addysg orfodol tan 2033 ar ôl cael eu haddysgu o dan y Cwricwlwm i Gymru cyfan. Serch hynny, nodwn batrwm y dystiolaeth ryngwladol a lywiodd y safbwyntiau yn adroddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, yn enwedig gan ei fod

[119] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 8 Mai 2024: Cofnod y Trafodion, paragraffau 29-30
[120] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 8 Mai 2024: Cofnod y Trafodion, paragraffau 131-132

yn ymwneud â pherfformiad addysgol gwledydd sydd â chwricwla cenedlaethol tebyg, megis yr Alban a Gogledd Iwerddon. Felly, rydym yn croesawu bwriad Ysgrifennydd y Cabinet i sefydlu grŵp cynghori arbenigol i sicrhau bod Cymru yn dysgu gan arbenigwyr addysgol a phrofiadau gwledydd eraill lle bynnag y bo modd.

**111.** Clywsom fwy am y cymwysterau TGAU newydd yn ystod ein gwiriad eleni nag yn y blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn gwneud synnwyr: mae'r gwaith o ddatblygu cymwysterau ar gam hollbwysig. Mae CBAC wrthi'n creu'r cymwysterau, a fydd yn cael eu cymeradwyo erbyn mis Medi 2024, ac a fydd yn dechrau cael eu haddysgu o fis Medi 2025. Dim ond blwyddyn fydd gan ysgolion i drosi manylebau'r cymhwysterau a ryddhawyd gan CBAC yn gynnwys cwricwlwm penodol i'w addysgu i'w disgyblion. Nid ydym yn diystyru'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â gwneud hynny, ar adeg pan ofynnir i ysgolion wneud cymaint gyda straen mor sylweddol ar eu hadnoddau. Yn ystod ein gwiriad nesaf, yn ystod blwyddyn academaidd 2024-25, byddwn yn rhoi sylw arbennig i baratoadau ar gyfer addysgu'r cymwysterau TGAU newydd, ac effaith y cymwysterau hynny ar ddulliau ysgolion uwchradd o gynllunio a darparu'r cwricwlwm.

**112.** Yn y cyfamser, rydym yn nodi'r pryderon a fynegwyd drwy gydol ein gwaith o gasglu tystiolaeth ynghylch y tensiwn cynhenid rhwng un cyfres o gymwysterau TGAU sefydlog a grëwyd yn bennaf gan un corff dyfarnu unigol ar y naill law, a chwricwlwm sy'n rhoi gwerth arbennig ar hyblygrwydd ac ymreolaeth ysgolion ar y llall. Nodwn hefyd bryderon rhai sefydliadau fod mis Medi 2024 yn rhy hwyr i gymwysterau gael eu rhyddhau i'w haddysgu ym mis Medi 2025. Gofynnwn i Ysgrifennydd y Cabinet roi sylw i'r pryderon hyn yn ei hymateb i'r adroddiad hwn.

**Recommendation 8.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei barn ar y canlynol mewn perthynas â'r cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru:

- O edrych yn ôl, ai'r penderfyniad cywir oedd cyhoeddi TGAU newydd flwyddyn yn unig cyn y mae'n ofynnol i ysgolion uwchradd eu haddysgu?
- A yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd cyfres sefydlog o gymwysterau yn annog ysgolion uwchradd yn benodol i 'addysgu i'r prawf', a thrwy hynny yn tanseilio'r hyblygrwydd a'r annibyniaeth hon a roddir iddynt o dan y Cwricwlwm i Gymru?

- I ba raddau, os o gwbl, y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod cael un darparwr cymwysterau unigol yn rhwystr i hyblygrwydd ysgolion o dan y Cwricwlwm i Gymru?

**113.** Yn olaf, gyda'r ffocws dealladwy ar ganlyniadau PISA a chymwysterau academaidd, mae'n bwysig nad ydym yn anghofio nad yw llwybr cwbl academaidd yn iawn i lawer o'n dysgwyr. Credwn yn gryf y dylai'r Cwricwlwm i Gymru hefyd baratoi plant ar gyfer teithiau galwedigaethol ymlaen o oedran cynnar, gan gynnwys Prentisiaethau Sylfaen neu Radd, Addysg Bellach, neu hyd yn oed yn uniongyrchol i gyflogaeth os mai dyna beth sy'n briodol i'r person ifanc. Ni ddylai gwella safonau addysgol ddod ar draul dosbarthu plant mewn modd sy'n rhy gyfyngedig.

## Asesiad ffurfiannol (parhaus)

**114.** Mae'r ail bryder mawr yr ydym wedi'i nodi am y Cwricwlwm i Gymru yn y cyfnod cynnar hwn yn ymwneud â sut mae ysgolion yn monitro cynnydd eu disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol: asesiad 'ffurfiannol' fel y'i gelwir. Nod arholiadau a mathau eraill o asesu ffurfiol (a elwir yn asesiad 'cyfunol') yw gwerthuso perfformiad dysgwyr ar adegau penodol. Fodd bynnag, bydd asesiad ffurfiannol effeithiol yn galluogi ysgolion i fonitro cynnydd myfyrwyr yn barhaus er mwyn nodi'n gynnar lle y gallai fod angen esboniad neu gymorth pellach. Gallai enghreifftiau o asesu ffurfiannol gynnwys edrych ar waith disgyblion a darparu adborth unigol a/neu ddosbarth cyfan, cwisiau anffurfiol, tasgau diwedd pwnc, sgyrsiau ar draws timau o staff ynghylch cynnydd disgyblion, sgyrsiau gyda disgyblion eu hunain i ddeall lle mae angen mwy o help arnynt, ac ati.

**115.** Yn ystod ein hymweliadau ag ysgolion yn 2023, clywsom gan rai ysgolion fod datblygu dulliau asesu ffurfiannol wedi bod yn heriol. Dywedodd un ysgol wrthym ei bod yn arfer defnyddio llawer o ddata, nad ydynt ar gael o dan y Cwricwlwm i Gymru. Dywedodd un arall ei bod wedi cyflwyno fframwaith asesu cwbl newydd. Mewn sgyrsiau grŵp ffocws a sgyrsiau un-i-un gyda 24 o aelodau o staff ysgol o 20 o ysgolion ledled Cymru yn ystod yr un cyfnod, clywodd Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd fod mwyafrif y cyfranogwyr yn teimlo'n aneglur a ydynt yn symud yn y cyfeiriad cywir gyda strategaethau asesu gan nad ydynt wedi cael fawr o arweiniad, os o gwbl, gan y consortia rhanbarthol, Estyn na chyrff eraill. Clywsom mai "'asesu' yw'r gair sy'n codi ofn ar bob athro", a chyfeiriodd un cyfranogwr hyd yn oed at asesu fel "twll mawr yn y cwricwlwm".[121]

[121] Senedd Cymru, 'Ymgysylltu â Dinasyddion: Gweithredu diwygiadau addysg', tudalennau 8-9

**116.** Yn ystod yr ymweliadau eleni, clywsom fod asesu ffurfiannol yn parhau i fod yn her, ac – unwaith eto – clywsom am ddiffyg data i fonitro dysgu disgyblion. Roedd rhai o'r ysgolion wedi prynu pecynnau asesu i gefnogi asesu parhaus, tra bod eraill yn dibynnu ar ddulliau a arweinir gan athrawon, sy'n canolbwyntio'n fawr ar y disgybl ond a allai gymryd llawer o amser i staff.[122]

**117.** Roedd y safbwyntiau a gawsom mewn tystiolaeth ysgrifenedig yn adlewyrchu'r hyn a glywsom yn uniongyrchol gan ysgolion. Galwodd pennaeth Ysgol Gynradd Goetre Fawr am fframweithiau a modelau asesu i ysgolion eu llenwi, a mynegodd rwystredigaeth ynghylch y diffyg amser a roddir i athrawon ddatblygu modelau asesu.[123] Dywedodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig wrthym fod rhai o'i aelodau sy'n benaethiaid cynradd wedi mynegi pryderon ynghylch asesu, a oedd, yn eu barn hwy, yn rhy amwys.[124] Adroddodd NASUWT farn debyg gan ei haelodaeth.[125]

**118.** Clywsom hefyd fod gan y fframwaith cymwysterau oblygiadau o ran sut mae ysgolion yn datblygu modelau asesu. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon [126] a NASUWT wrthym y gallai diffyg eglurder ynghylch cynnwys a strwythur cymwysterau beryglu systemau asesu a chynnydd:

> *"Teachers are loathe to build new assessment regimes when they are not clear what skills will be required in the new Qualifications. This can lead to teachers falling back on tried and tested assessment regimes. Deeper investigation may find that the CfW is no new Curriculum at all but the old one with a few tweaks."*[127]

**119.** Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud Rheoliadau,[128] cyhoeddi Cod Cynnydd statudol,[129] canllawiau,[130] a hyd yn oed 'cyfeiriad' ynghylch cynnydd ac asesu o dan adran 57 o Ddeddf y Cwricwlwm.[131] Mae hefyd wedi sefydlu'r prosiect 'Camau i'r Dyfodol', sy'n gydweithrediad rhwng Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a

---

[122] Senedd Cymru, 'Gweithredu diwygiadau addysg: trydydd gwiriad: Crynodeb o ganfyddiadau ymweliadau ysgol', haf 2024, tudalennau 8-9
[123] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 15 Ysgol Gynradd Goetre Fawr (Pennaeth) (Saesneg yn unig)
[124] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 30 Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig (Saesneg yn unig)
[125] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 42 NASUWT Cymru (Saesneg yn unig)
[126] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 29 Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon
[127] Tystiolaeth ysgrifenedig: IER 23 NASUWT (Saesneg yn unig)
[128] Legislation.gov.uk, 'Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru) 2022'
[129] Llywodraeth Cymru, 'Y Cwricwlwm i Gymru – Y Cod Cynnydd', Tachwedd 2021
[130] Llywodraeth Cymru, 'Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu'
[131] Llywodraeth Cymru, 'Nodyn Esboniadol a Chyfarwyddyd o dan Adran 57 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021', Mehefin 2022

Phrifysgol Glasgow i lywio dealltwriaeth o gynnydd ac asesu o fewn y sector addysg.[132]

**120.** Fodd bynnag, dywedodd Estyn wrthym fod angen canllawiau manylach ar gynnydd ac asesu ar ysgolion.[133] Dywedodd y Prif Arolygydd wrthym fod arfer gwych mewn perthynas â datblygu'r cwricwlwm yn dod pan fo'r cynnwys a'r maes llafur yn gywir, ond felly hefyd y camau asesu a chynnydd.[134] Nid yw'n syndod, efallai, fod asesu wedi bod yn ffocws sylweddol yn amser Estyn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yn 2022, cyhoeddodd yr adroddiad 'Ymagweddau effeithiol wrth asesu sy'n gwella addysgu a dysgu', sef y llwythiad mwyaf poblogaidd o'r wefan yn ystod cyfnod adrodd 2022-23.[135] Mae'r adroddiad yn annog ysgolion i "gryfhau arfer dda sy'n bodoli eisoes", yn hytrach na gwneud newidiadau ar raddfa gyfan. Ailadroddodd y Prif Arolygydd y farn hon wrthym yn ystod gwaith craffu ar lafar:

> *"… when you introduce something new —and the new curriculum is new—that, frequently, people come to question their practice in other areas… we've actually seen a de-skilling of the profession as they wait for whoever it is who is looking at what assessment should look like in the future …".* [136]

**121.** Mae adroddiad 2022 Estyn yn awgrymu, lle mae asesu'n arbennig o gryf, bod ysgolion:

> *"… yn aml wedi symud oddi wrth ffocws ar ddefnyddio data crynodol ar gyfer atebolrwydd allanol. Yn hytrach, maent wedi meddwl yn fwy gofalus am y modd y mae eu harferion asesu yn nodi'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud ar draws y cwricwlwm, a sut y gellir addasu eu haddysgu i ymateb i'r wybodaeth hon."*

Gwnaeth yr adroddiad gyfres o argymhellion i ysgolion wella eu dulliau asesu parhaus.[137]

---

[132] Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant, 'Camau i'r Dyfodol'
[133] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 21 Chwefror 2024: Cofnod y Trafodion, paragraff 171
[134] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 21 Chwefror 2024: Cofnod y Trafodion, paragraff 167
[135] Estyn, 'Ymagweddau effeithiol wrth asesu sy'n gwella addysgu a dysgu', Hydref 2022. I gael y cyfeiriad at lwythiadau, gweler: Estyn, 'Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23', Medi 2023, tudalen 23
[136] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 21 Chwefror 2024: Cofnod y Trafodion, paragraff 170
[137] Estyn, 'Ymagweddau effeithiol wrth asesu sy'n gwella addysgu a dysgu', Hydref 2022 tudalennau 1 ac 8-9

**122.** Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig o fis Ebrill 2024, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wrthym:

> *"Datblygu dealltwriaeth o gynnydd a beth yn union yw natur cynnydd effeithiol dysgwyr yw'r agwedd ar ddylunio'r cwricwlwm (ochr yn ochr â dulliau asesu) sydd fwyaf heriol i ysgolion ar hyn o bryd."*

Aeth ymlaen i nodi rhywfaint o "ansicrwydd" ar draws ysgolion ynghylch symud i ffwrdd oddi wrth arferion a dulliau gweithredu sefydledig mewn perthynas ag asesu. Mae'r papur yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i ddatblygu dysgu proffesiynol pwrpasol sy'n canolbwyntio ar gynllunio'r cwricwlwm ac asesu, gan atgyfnerthu'r canllawiau presennol a gyhoeddwyd ar Hwb. Bydd y dysgu proffesiynol newydd ar gael yn genedlaethol o haf 2024.[138]

**123.** Mewn llythyr atom yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth ar 8 Mai, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrthym fod angen mwy o gymorth ar ysgolion gyda chynnydd ac asesu er mwyn bod yn hyderus yn yr hyn y maent yn ei wneud. Nododd y byddai Estyn yn cyhoeddi adroddiad thematig maes o law ar y broses bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ac yn datblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd ar draws ysgolion.[139] Mewn datganiad i'r Senedd ar 2 Gorffennaf, ymrwymodd Ysgrifennydd y Cabinet i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu a chyhoeddi o wanwyn 2025:

> *"… adnoddau a thempledi penodol i roi proses glir i ysgolion ar gyfer datblygu a gwella eu cwricwlwm, ni waeth beth fo'u man cychwyn. Mae hyn yn cynnwys rhagor o fanylion ar ddulliau o fynd ati i ddatblygu ac asesu, gan gynnwys gwerthuso a chyfleu'r cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud."*

Ychwanegodd y bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn hyrwddo ac yn rhannu enghreifftiau o arfer da o ran dylunio cwricwlwm effeithiol, cynnydd ac asesu. Fodd bynnag, pwysleisiodd fod "[…] hyn yn ymwneud â rhoi sylfaen gadarn ar waith ar gyfer y rhai sydd ei angen, peidio â rhoi nenfwd ar yr arloesedd yr ydym eisoes yn ei weld ledled y wlad."[140]

[138] Llywodraeth Cymru, 'Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru: Ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i weithredu diwygiadau addysg', Ebrill 2024, tudalennau 14-16
[139] 'Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg', 18 Mehefin 2024, tudalennau 5-6
[140] Y Cyfarfod Llawn, 2 Gorffennaf 2024: Cofnod y Trafodion, paragraffau 171-174

## Ein barn ni

**124.** Mae llawer o ysgolion yn cael trafferth cyfuno hyblygrwydd y Cwricwlwm i Gymru â dulliau cadarn a dibynadwy o asesu ffurfiannol. Os caiff cwricwlwm ysgol ei arwain yn fwy gan ddisgyblion a'i addasu i ganolbwyntio ar ddysgwyr unigol yn hytrach na disgwyliadau cenedlaethol sy'n gysylltiedig ag oedran, mae'n ddigon posibl y bydd angen i ddulliau ysgolion o asesu ffurfiannol fod wedi'i deilwra i'r unigolyn hefyd. I lawer o ysgolion, mae hwn wedi bod yn gyfnod pontio heriol.

**125.** Clywsom gefnogaeth gadarnhaol iawn i ddulliau o asesu ffurfiannol sydd wedi'u teilwra i'r unigolyn, ond hefyd eu bod yn cymryd amser i'w gwreiddio ac – yn hollbwysig – amser i'w cyflawni'n effeithiol ar sail barhaus. Mae'r hyblygrwydd ychwanegol yn y Cwricwlwm i Gymru hefyd yn cyflwyno heriau penodol pan fo plant yn symud rhwng ysgolion, o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn arbennig. Gyda chwricwla mor amrywiol ar draws ysgolion, mae asesu ffurfiannol yn bwysicach nag erioed er mwyn sicrhau bod ysgolion uwchradd yn cael budd o bopeth y mae ysgolion cynradd wedi'i ddysgu am eu disgyblion wrth iddynt fynd i flwyddyn 7. Gwyddom o'n gwaith hyd yma fod darparu adnoddau ar gyfer yr holl sgyrsiau hollbwysig hyn, boed hynny o fewn ysgolion neu ar draws ysgolion, yn hynod o heriol ar hyn o bryd.

**126.** Rydym felly wedi ein cysuro bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod pa mor hanfodol bwysig yw asesu ffurfiannol. Rydym yn croesawu'r gwaith a wnaed gan Estyn a Llywodraeth Cymru hyd yma ar asesu. Ond mae ysgolion yn dal i alw am gymorth ymarferol a chanllawiau pendant.

**127.** Felly, rydym yn falch bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi ymrwymo i ddarparu cymorth ymarferol i ysgolion yn ei datganiad diweddaraf i'r Senedd. Er ein bod yn cytuno na ddylai canllawiau'r llywodraeth fod mor rhagnodol fel eu bod yn mygu creadigrwydd ysgolion, nid ydym yn gweld unrhyw reswm o gwbl pam na all Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o gymorth ymarferol gydag asesu ffurfiannol heb beryglu ethos craidd y Cwricwlwm i Gymru. Er y bydd cynnwys pob cwricwlwm ysgol unigol yn amrywio, nid yw egwyddorion asesu ffurfiannol effeithiol yn amrywio. Edrychwn ymlaen at weld canlyniadau'r maes gwaith hollbwysig hwn a monitro ei effaith barhaus yn ystod gweddill tymor y Senedd.

# Atodiad 1: Rhestr o ymweliadau ysgol

Cynhaliodd y Pwyllgor ymweliadau ar y dyddiad a nodir isod. Gellir gweld crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliadau ymgysylltu ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | |
|---|---|
| **23 Mehefin 2022** | Rhosymedre Community Primary School, Wrecsam |
| **11 Gorffennaf 2022** | Monnow Primary, Casnewydd |
| **27 Ebrill 2023** | Blessed Carlo Acutis Catholic School, Merthyr Tudful<br>Ysgol Aberconwy, Conwy<br>Ysgol Gyfun y Strade, Llanelli |
| **25 Ebrill 2024** | Sandfields Primary school, Abertawe<br>Llangatwg Community School, Castell-nedd<br>Ysgol Cwm Rhymni Gellihaf, y Coed Duon |
| **2 Mai 2024** | Ysgol y Deri, Caerdydd |

# Atodiad 2: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw'r sefydliad |
|---|---|
| **14 Gorffennaf 2022** | **Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**<br>**Georgina Haarhoff, Deputy Director Curriculum,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Hannah Wharf, Dirprwy Gyfarwyddwr Adran Cefnogi i Ddysgwyr,**<br>Llywodraeth Cymru |
| **10 Mai 2023** | **Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**<br>**Georgina Haarhoff, Dirprwy Gyfarwyddwr Cwricwlwm,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Hannah Wharf, Dirprwy Gyfarwyddwr Adran Cefnogi i Ddysgwyr,**<br>Llywodraeth Cymru |
| **21 Chwefror 2024** | **Owen Evans, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi,**<br>Estyn<br>**Claire Morgan, Cyfarwyddwr Strategol,**<br>Estyn<br>**Jassa Scott, Cyfarwyddwr Strategol,**<br>Estyn<br>**Dyfrig Ellis, Cyfarwyddwr Cynorthwyol,**<br>Estyn |
| **20 Mawrth 2024** | **Y Barnwr Jane McConnell, Llywydd,**<br>Tribiwnlys Addysg Cymru<br>**Rhian Davies-Rees, Pennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru**<br>Tribiwnlys Addysg Cymru |
| **08 Mai 2024** | **Lynne Neagle AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**<br>**Hannah Wharf, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Cefnogi i Ddysgwyr,** |

| Dyddiad | Enw'r sefydliad |
|---|---|
| | Llywodraeth Cymru<br>**Lloyd Hopkin, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cwricwlwm ac Asesu,** Llywodraeth Cymru<br>**Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a'r Gymraeg,** Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 3: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeiriad | Trefniadaeth |
|---|---|
| **IER 01** | Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru |
| **IER 02** | Comisiynydd Plant Cymru |
| **IER 03** | Y Gymdeithas Fioleg Frenhinol |
| **IER 04** | Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith yng Nghymru a Fforwm Ymgynghorol Therapi Lleferydd ac Iaith Cymru |
| **IER 05** | Llywodraeth Cymru |
| **IER 06** | ColegauCymru |
| **IER 07** | Unigolyn |
| **IER08** | Brian Jones |
| **IER 09** | Unigolyn |
| **IER 10** | Unigolyn |
| **IER 11** | Lowry Serw |
| **IER 12** | Unigolyn |
| **IER 13** | Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| **IER 14** | Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar |
| **IER 15** | Pennaeth, Ysgol Gynradd Goetre Fawr |
| **IER 16** | Impact School Improvement Ltd |
| **IER 17** | Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru ar ran Cynghrair Dysgu Byd-eang Cymru |
| **IER 18** | Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion |
| **IER 19** | NSPCC Cymru |

| **Cyfeiriad** | **Trefniadaeth** |
|---|---|
| **IER 20** | PACEY Cymru |
| **IER 21** | Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| **IER 22** | CEPRA, UWTSD |
| **IER 23** | NASUWT Cymru |
| **IER 24** | Dyneiddwyr Cymru |
| **IER 25** | Mudiad Meithrin |
| **IER 26** | Mind Cymru |
| **IER 27** | Natspec |
| **IER 28** | Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru |
| **IER 29** | Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon |
| **IER 30** | Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig |
| **IER 31** | Llywodraeth Cymru - Cwricwlwm - Gorffennaf 2022 |
| **IER 32** | Llywodraeth Cymru- Gweithredu Diwygiadau ADY - Gorffennaf 2022 |
| **IER 33** | Llywodraeth Cymru – Cwricwlwm – Mai 2023 |
| **IER 34** | Llywodraeth Cymru - Gweithredu Diwygiadau ADY - Mai 2023 |
| **IER 35** | Unigolyn |
| **IER 36** | Unigolyn |
| **IER 37** | Y Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Pobl Fyddar |
| **IER 38** | Parents Voices in Wales CIC |
| **IER 39** | Unigolyn |
| **IER 40** | 21 Plus |
| **IER 41** | Cymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar |
| **IER 42** | NASUWT Cymru |
| **IER 43** | Canolfan Plant Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| **IER 44** | British Heart Foundation |
| **IER 45** | Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| **IER 46** | UNISON Cymru |

| Cyfeiriad | Trefniadaeth |
|---|---|
| **IER 47** | Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig |
| **IER 48** | Natspec |
| **IER 49** | Mudiad Meithrin |
| **IER 50** | Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith |
| **IER 51** | Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar |
| **IER 52** | Ymddiriedolaeth Cymunedau Elidyr |
| **IER 53** | Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall |
| **IER 54** | Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru |
| **IER 55** | Llywodraeth Cymru |
| **IER 56** | Parents Voices in Wales CIC |
| **IER 57** | Comisiynydd y Gymraeg |

## Gwybodaeth ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru | 24 Ebrill 2023 |
| Cymwysterau Cymru | 24 Ebrill 2023 |
| UCAS | 24 Ebrill 2023 |
| Colegau Cymru - Curriculum | 26 Ebrill 2023 |
| Colleges Wales - Additional Learning Needs | 12 Mai 2023 |

## Gweithgareddau ymgysylltu eraill

| Dyddiad | |
|---|---|
| **Ebrill / Mai 2023** | Cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion waith ymgysylltu â staff ysgolion gan gynnwys Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, Arweinwyr Cwricwlwm a Phenaethiaid. Mae adroddiad cryno ar gael. |
| **Mawrth 2024** | Cyfarfod â'r grŵp cynghori ar-lein ar gyfer yr ymchwiliad i fynediad plant a phobl ifanc anabl at addysg a gofal plant i drafod y diwygiadau. Mae nodyn o'r sesiwn honno ar gael. Ailddadansoddwyd data o gyfweliadau teuluol ar gyfer yr ymchwiliad hwnnw a chafodd unrhyw ddata a oedd yn |

| **Dyddiad** | |
|---|---|
| | berthnasol i'r ymchwiliad hwn eu tynnu allan a'u cyhoeddi mewn adroddiad cryno |